

City of Cardiff Council

Statement of Gambling Act Policy

2022 - 2025



Cynnwys

1.	Yr Amcanion Trwyddedu	4
1.1	Cyflwyniad	4
1.2	Proffil o Gaerddy	5
1.3	Datganiad	7
1.4	Awdurdodau Cyfrifol	7
1.5	Partion â Diddordeb	7
1.6	Cyfnewid gwybodaeth	8
1.7	Gorfodi	9
1.8	Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu	10
1.9	Hawliau Sylfaenol	11
1.10	Integreiddio Strategaethau ac Osgoi Dyblygu	11
1.11	Strategaeth Gymunedol Datblygu Cynaliadwy	11
2.	Trwyddedau Safle	12
2.1	Egwyddorion Cyffredinol	12
2.2	Diffiniad o 'safleoedd'	13
2.3	Amgylchedd Trwydded Priodol	14
2.4	Safle "yn barod at gamblo"	15
2.5	Lleoliad	16
2.6	Cynllunio	16
2.7	Dyblygu gyda gweithdrefnau rheoliadol eraill	16
2.8	Amcanion trwyddedu	17
2.9	Bet-Watch	19
2.10	Amodau	19
2.11	Goruchwylwyr Drws	20
2.12	Canolfan Gemau i Oedolion	20
2.13	Canolfannau Adloniant i Deuluoedd (Trwyddedig)	21
2.14	Casinos	21
2.15	Safleoedd betio	22
2.16	Safleoedd bingo	22
2.17	Traciau	23
2.18	Peiriannau Hapchwarae	24
2.19	Peiriannau betio	24
2.20	Ceisiadau a chynlluniau	24
2.21	Ffeirau Teithwyr	25
2.22	Datganiadau Dros Dro	25
3.	Trwyddedau/Hysbysuadau Defnydd Bros Dro ac Achlysurol	26
3.1	Canolfan adloniant teuluol ddirwydded Trwyddedau Peiriannau Gamblo	26
3.2	Trwyddedau Peiriannau Gamblo Safleoedd â Thrwydded (Alcohol)	28
3.3	Trwyddedau Gamblo am Wobr	29
3.4	Trwyddedau Gamblo mewn Clwb a Pheiriannau Clwb	29
3.5	Hysbysiadau Defnydd Dros Dro	30

3.6	Hysbysiadau Defnydd Achlysurol	31
3.7	Loterïau Cymdeithasau Bychain	31
4.	Gwneud Penderfyniadau	32
4.1	Gweinyddiaeth, Arfer a Dirprwyo Swyddogaethau	32
4.2	Y Weithdrefn Apelio	33
4.3	Rhoi Rhesymau dros Benderfyniadau	33
4.4	Gweithredu Penderfyniad Llys yr Ynadon	33
4.5	Cwynion yn erbyn safle trwyddedig	33
4.6	Adolygiadau	34
5.	Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer 2015 (LCCP)	35
5.1	Darpariaethau cod cyfrifoldeb cymdeithasol	35
5.2	Darpariaethau cod arferol	36
5.3	Asesiadau Risg – Safleoedd Gamblo	36
5.4	Newidiadau sylweddol i'r safle	38
5.5	Amrywio'r drwydded safle	39
5.6	Adolygiad rheolaidd ar yr asesiad risg	40
5.7	Risgiau lleol a mesurau rheoli	40
5.8	Risgiau ardal leol	41
5.9	Risgiau gweithredu gamblo	41
5.10	Risgiau cynlluniau adeilad	41
5.11	Risgiau cynllun mewnol	42
5.12	Risgiau cynllun allanol	42
5.13	Mesurau rheoli	42
6.	Gwybodaeth Ychwanegol	44
7.	Atodiadau	
	Atodiad A - Map o Gaerdydd	
	Atodiad B - Awdurdodau Cyfrifol : Manylion Cyswllt	
	Atodiad C - Rhestr o sefydliadau a ymgynghorwyd yn uniongyrchol	
	Atodiad D- Gwneud penderfyniadau a dirprwyo	

Cymeradwywyd y Datganiad Hwn o Egwyddorion Trwyddedu gan Gyngor Caerdydd ar 27 Ionawr 2022

1. Yr Amcanion Trwyddedu

Wrth arfer y rhan fwyaf o'u swyddogaethau dan Ddeddf Gamblo 2005, mae'n rhaid awdurdod trwyddedu, ystyried yr amcanion trwyddedu a nodir yn adran 1 y Ddeddf. Yr amcanion trwyddedu yw:

- Atal gamblo rhag dod yn ffynhonnell troseddu neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throseddu neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gynorthwyo troseddu
- Sicrhau bod gamblo yn digwydd yn deg ac agored
- Diogelu plant a phobl fregus eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan gamblo

Dylid nodi bod y Comisiwn Gamblo wedi datgan hyn: "Mae'r gofyniad o ran plant yn benodol er mwyn eu diogelu rhag niwed neu eu hecsbloetio gan gamblo."

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ymwybodol y dylai, wrth wneud penderfyniadau ynghylch Trwyddedau Safle a hysbysiadau defnydd dros dro, yn unol ag Adran 153, geisio caniatáu defnyddio eiddo ar gyfer gamblo pan gred ei fod:

- yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyflwyna'r Comisiwn Gamblo;
- yn unol ag unrhyw ganllaw perthnasol a gyflwyna'r Comisiwn Gamblo;
- Yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu; ac
- yn cydymffurfio â datganiad polisi trwyddedu'r cyngor.

1.1 Cyflwyniad

Mae'r Datganiad hwn yn cwmpasu ardal ddaearyddol Caerdydd.

Cyngor Caerdydd yw'r Awdurdod Trwyddedu dan Ddeddf Gamblo 2005.

Mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu dan Ddeddf Gamblo 2005 gyhoeddi datganiad o'r egwyddorion y maent yn bwriadu eu cymhwyso wrth arfer eu swyddogaethau. Rhaid cyhoeddi'r datganiad hwn o leiaf bob tair blynedd. Rhaid adolygu'r datganiad hefyd o "bryd i'w gilydd" a ail-ymgyngori ar unrhyw rannau a ddiwygir. Wedyn mae'n rhaid ail-gyhoeddi'r datganiad.

Ymgynghorodd Cyngor Caerdydd yn helaeth ar y Datganiad hwn cyn ei gwblhau a'i gyhoeddi. Darperir rhestr o'r sawl yr ymgynghorwyd â hwy isod. Dylid nodi bod sylwadau di-gyfeiriad wedi eu derbyn gan bobl eraill ond nid ydym wedi rhestru'r rhain i gyd.

Mae'r Ddeddf Gamblo yn mynnu bod awdurdodau trwyddedu yn ymgynghori â'r canlynol:

- Prif Swyddog yr Heddlu;
- Un neu ragor o bobl sy'n ymddangos i'r awdurdod i gynrychioli buddiannau pobl sy'n cynnal busnesau gamblo yn ardal yr awdurdod;

- Un neu ragor o bobl sy'n ymddangos i'r awdurdod i gynrychioli buddiannau pobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan arfer swyddogaethau'r awdurdod dan Ddeddf Gamblo 2005.

Manylir ar restr lawn o'r sawl yr ymgynghorwyd â nhw yn Atodiad C.

Cynhaliwyd ein hymgyngoriad rhwng 10 Medi a 22 Hydref 2021 ac fe wnaethom ddilyn [Cod Ymarfer Llywodraeth EF ar Ymgynghori](#) (cyhoeddwyd Gorffennaf 2008).

Mae'r rhestr lawn o sylwadau a wnaed a'r ystyriaeth gan y Cyngor o'r sylwadau hynny ar gael drwy gais i: Trwyddedu, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Ddinas, Caerdydd, CF10 3ND.

Cymeradwywyd y polisi mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar a chafodd ei gyhoeddi drwy ein gwefan ar 27 Ionawr 2022.

Os oes gennych unrhyw sylwadau o ran y datganiad polisi hwn, anfonwch nhw drwy e-bost neu lythyr at y cyswllt canlynol:

Trwyddedu
Cyngor Caerdydd
Neuadd y Ddinas
Caerdydd
CF10 3ND
E-bost: trwyddedu@caerdydd.gov.uk

Dylid nodi na fydd y datganiad hwn o egwyddorion trwyddedu yn diystyru hawl unrhyw berson i wneud cais, cyflwyno sylwadau am gais, neu wneud cais am adolygiad o drwydded, gan y bydd pob un yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun ac yn ôl gofynion statudol Deddf Gamblo 2005.

1.2 Proffil o Gaerdydd

Caerdydd yw prifddinas Cymru ac mae'n parhau i dyfu'n gyflymach nag unrhyw brifddinas arall yn Ewrop. O ran poblogaeth, hwn yw Awdurdod Lleol mwyaf Cymru (350,000) ond mae mesurau o boblogaeth Caerdydd yn rhoi camargraff o'i harwyddocâd fel canolfan masnach a busnes ranbarthol. Mae'r boblogaeth yn chwyddo gan tua 70,000 bob dydd gyda chymudwyr ac ymwelwyr. Mae ei phoblogrwydd fel cyrchfan siopa a hamdden yn ymestyn ymhell y tu hwnt i Gymru gyda llawer o ymwelwyr nid yn unig o weddill y DU ond o dramor.



Caerdydd yw sedd y llywodraeth a chanolfan fasnachol, ariannol a gweinyddol Cymru. Mae Caerdydd yn brolio un o ganolfannau dinesig mwyaf bywiog y DU ac ar benwythnos arferol, gall economi'r nos Caerdydd ddenu dros 40,000 o bobl ac weithiau mwy na 150,000 pan fydd Stadiwm Principality y ddinas yn cynnal digwyddiadau rhyngwladol.

Mae Bae Caerdydd yn ddatblygiad glannau o safon fyd-eang ac mae Stadiwm Principality ymhlith stadiymau chwaraeon gorau'r byd sy'n cynnal digwyddiadau mawr sy'n dangos y rôl y mae Caerdydd wrthi'n datblygu ar y llwyfan rhyngwladol. Mae iddi amrywiaeth drawiadol o gyfleusterau diwylliannol, chwaraeon a chelfyddydol gan gynnwys Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Werin Cymru, Neuadd Dewi Sant, Theatr Newydd, Canolfan y Mileniwm a Stadiwm y Ddinas, yn ogystal â'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol.

Mae datblygiadau o'r fath wedi arwain at fywiogrwydd a deinamigrwydd ar draws y Ddinas sy'n cyflwyno her sylweddol i wasanaethau gorfodi sydd eisiau sicrhau diogelwch eu poblogaeth leol ac ymwelwyr.

Mae ardal y Cyngor yn drefol yn bennaf, ac ardaloedd canol y ddinas (ward Cathays) a Bae Caerdydd (Ward Butetown) yw'r prif ardaloedd masnachol. Yn ogystal mae 26 o ganolfannau lleol/ardal ledled y ddinas. Mae gweddill yr ardal yn breswyl yn bennaf.

Rhennir y Sir yn 29 ward etholiadol; dangosir yr ardaloedd hyn ym map y Sir yn Atodiad A.

Ar hyn o bryd mae tua 70 eiddo yng Nghaerdydd wedi'u trwyddedu dan Ddeddf Gamblo 2005.

1.3 Datganiad

Wrth gynhyrchu'r datganiad terfynol, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n datgan ei fod wedi ystyried amcanion trwyddedu Deddf Gamblo 2005, y Canllaw i Awdurdodau Trwyddedu a gyflwynwyd gan y Comisiwn Gamblo, ac unrhyw ymatebion gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch y datganiad.

1.4 Awdurdodau cyfrifol

Mae'n ofynnol gan reoliadau i'r Awdurdod Trwyddedu ddatgan yr egwyddorion a fydd yn gymwys wrth arfer ei bwerau o dan Adran 157(h) o'r Ddeddf i ddynodi, yn ysgrifenedig, gorff sy'n gymwys i gynghori'r awdurdod ynghylch diogelu plant rhag niwed. Yr egwyddorion yw:

- Yr angen i'r corff fod yn gyfrifol dros ardal sy'n cynnwys holl ardal yr Awdurdod Trwyddedu; ac
- Yr angen i'r corff fod yn atebol i bobl sydd wedi eu hethol yn ddemocrataidd, yn hytrach nag unrhyw grŵp buddiant penodol.

Yn unol â'r awgrym yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu, mae'r awdurdod hwn yn dynodi'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant at y diben hwn.

Manylir ar fanylion cyswllt yr holl Awdurdodau Cyfrifol dan Ddeddf Gamblo 2005 yn Atodiad B.

1.5 Partïon â Diddordeb

Gall partïon â diddordeb gyflwyno sylwadau ar geisiadau am drwydded, neu wneud cais am adolygiad o drwydded sy'n bodoli eisoes. Diffinnir y partïon hyn yn Neddf Gamblo 2005 fel a ganlyn:

"At ddibenion y Rhan hon mae person yn barti â buddiant mewn perthynas â chais ar gyfer neu o ran Trwydded Adeilad os, ym marn yr Awdurdod Trwyddedu sy'n dyfarnu'r drwydded neu y gwneir y ceisiadau iddo, fod y person

- a) yn byw'n ddigon agos at y safle fel ei fod yn debygol o gael ei effeithio arno gan y gweithgareddau a ganiateir;*
- b) y mae ganddo fuddiannau busnes y gallai'r gweithgareddau awdurdodedig effeithio arnynt; neu*
- c) yn cynrychioli pobl sy'n bodloni paragraff (a) neu (b)"*

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu drwy reoliadau ddatgan yr egwyddorion y bydd yn gymwys wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Gamblo 2005 i benderfynu a yw person yn barti â diddordeb. Yr egwyddorion yw:

Penderfynir ar bob cais yn unigol. Ni fydd yr awdurdod hwn yn gweithredu rheol lem wrth wneud penderfyniadau. Bydd yn ystyried yr enghreifftiau o ystyriaethau a ddarperir yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu am 8.11 i 8.18. Bydd hefyd yn ystyried Canllawiau'r Comisiwn Gamblo y dylid rhoi'r dehongliad ehangaf posibl "sydd â buddiannau busnes" ac mae'n cynnwys partneriaethau, elusennau, grwpiau ffydd, arferion meddygol a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Gall partïon â diddordeb fod yn bobl a etholir yn ddemocrataidd, megis cynghorwyr ac ASau. Ni fydd angen tystiolaeth benodol i brofi cynrychioli person â diddordeb cyhyd â bod y Cynghorydd / AS yn cynrychioli'r ward y mae'n debygol yr effeithir arni. Felly hefyd, ystyrir cynghorau plwyf y mae'n debyg yr effeithir arnynt fel partïon â diddordeb. Oni bai am y rhain, fodd bynnag, fel rheol bydd angen tystiolaeth ysgrifenedig ar yr Awdurdod bod person / corff (e.e. eiriolwr/perthynas) yn 'cynrychioli' rhywun sydd naill ai yn byw yn ddigon agos at yr eiddo i'r gweithgareddau a ganiateir effeithio arno a/neu mae ganddo fuddiannau busnes y gallai'r gweithgareddau a ganiateir effeithio arno. Mae llythyr gan un o'r bobl hyn, yn gofyn am gynrychiolaeth yn ddigon.

Os yw unigolion yn dymuno gofyn i gynghorwyr gynrychioli eu barn, yna dylid gofalu nad yw'r cynghorwyr yn rhan o'r Pwyllgor Trwyddedu sy'n delio â'r cais am drwydded. Os oes unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'r

Gwasanaeth Trwyddedu
Cyngor Caerdydd
Neuadd y Ddinas
Caerdydd
CF10 3ND

Ffôn: 029 2087 1651

Trwyddedu@caerdydd.gov.uk

1.6 Cyfnewid Gwybodaeth

Mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu gynnwys yn eu datganiadau yr egwyddorion sydd i'w cymhwyso gan yr awdurdod wrth arfer y swyddogaethau dan adrannau 29 a 30 o'r Ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhyngddo a'r Comisiwn Gamblo, a'r swyddogaethau o dan adran 350 o'r Ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhyngddi a'r bobl eraill a restrir yn Atodlen 6 i'r Ddeddf.

O ganlyniad, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gweithredu yn unol â darpariaethau Deddf Gamblo 2005 yn ei gyfnewid gwybodaeth sy'n cynnwys y ddarpariaeth na fydd y ddeddfwriaeth Diogelu Data gyfredol yn cael ei thorri. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn cydymffurfio ag unrhyw ganllaw a gyflwynir gan y Comisiwn Gamblo ar y mater hwn, yn ogystal ag unrhyw reoliadau perthnasol a gyflwynar Ysgrifennydd Gwladol dan y grymoedd a

roddir iddo dan Ddeddf Gamblo 2005.

Pe bai unrhyw brotocolau yn cael eu sefydlu o ran cyfnewid gwybodaeth gyda chyrff eraill yna byddant ar gael.

Caiff yr awdurdod o bryd i'w gilydd arfer ei bwerau o dan adran 115 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i gyfnewid data a gwybodaeth gyda'r heddlu a phartneriaid eraill i gyflawni ei amcan statudol o leihau troseddau yn yr ardal.

Byddai'r awdurdod am wneud ei broses o wneud penderfyniadau mor dryloyw â phosibl a bydd pob cynrychioliad a wneir iddo yn cael ei rannu gyda phob parti i gais. Cydymffurfir â deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth.

Cysylltwch â'r Gwasanaeth Trwyddedu i gael rhagor o wybodaeth am ein protocolau.

1.7 Gorfodi

Mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu drwy reoleiddio dan Ddeddf Gamblo 2005 i ddatgan yr egwyddorion sydd i'w cymhwyso gan yr awdurdod wrth arfer y swyddogaethau dan Ran 15 y Ddeddf mewn perthynas ag arolygu safleoedd; a'r pwerau dan adran 346 y Ddeddf i erlyn mewn perthynas â'r troseddau a bennir.

Egwyddorion yr Awdurdod Trwyddedu yw y caiff ei arwain gan Ganllaw'r Comisiwn Gamblo i awdurdodau lleol, Cod y Rheoleiddwyr a pholisi gorfodi Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor. Bydd yn ymdrechu i fod yn:

- Gymesur: ni ddylai rheoleiddwyr ond ymyrryd pan fo'n angenrheidiol, dylai'r dulliau unioni fod yn briodol i'r risg a dylid nodi a lleihau'r costau;
- Cyfrifol: rhaid i reoleiddwyr allu cyfiawnhau penderfyniadau a bod yn destun craffu cyhoeddus;
- Cyson: rhaid i'r rheolau a safonau gyd-fynd a rhaid eu gweithredu'n deg;
- Tryloyw: dylai rheoleiddwyr fod yn agored, cadw rheoliadau'n syml a hawdd eu defnyddio; a dylid
- Targedu: dylai rheoliadau ffocysu ar y broblem a lleihau ei sgil effeithiau.

Yn unol â Chanllaw'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ymdrechu i osgoi dyblygu ag unrhyw gyfundrefn reoliadol arall cyhyd ag y bo'n bosibl.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi mabwysiadu a gweithredu rhaglen archwilio ar sail risg, yn seiliedig ar:

- Yr amcanion trwyddedu
- Codau ymarfer perthnasol

- Canllaw gan y Comisiwn Gamblo, yn benodol o ran Rhan 36
- Yr egwyddorion a nodir yn y datganiad polisi trwyddedu hwn

Prif rôl gorfodi a chydymffurfio'r Awdurdod Trwyddedu hwn o ran Deddf Gamblo 2005 yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r Trwyddedau Safle a chaniatâd arall y mae'n ei roi. Y Comisiwn Gamblo yw'r corff gorfodi ar gyfer y gweithredwr a'r trwyddedau personol. Mae hefyd yn werth nodi nad yr Awdurdod Trwyddedu sy'n trin pryderon ynghylch gwneuthuriad, cyflenwi neu drwsio peiriannau gamblo ond dylid rhoi gwybod i'r Comisiwn Gamblo.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried dogfen ganllaw'r Comisiwn Gamblo a gyhoeddwyd yn Chwefror 2015 (ac unrhyw ddiwygiadau dilynol) 'Dull Profi Prynu' wrth ystyried profion prynu mewn safleoedd gamblo. Bydd y cyngor hefyd yn dilyn ei bolisiau a gweithdrefnau ei hun o ran defnyddio profwyr prynu dan oed.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn sicrhau bod ganddo wybodaeth ddiweddar am ddatblygiadau o ran gwaith y Weithrediaeth Rheoleiddio Gwell wrth ystyried swyddogaethau rheoliadol awdurdodau lleol.

1.8 Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu

Mae angen awdurdodau trwyddedu dan y Ddeddf i:

- Fod yn gyfrifol dros drwyddedu safleoedd lle cynhelir gweithgareddau gamblo trwy gyflwyno Trwyddedau Safle
- Cyflwyno Datganiadau Dros Dro
- Rheoleiddio clybiau aelodau a sefydliadau lles glowyr, sy'n dymuno cynnal gweithgareddau gemau penodol, trwy gyflwyno Trwyddedau Gemau Clybiau a/neu Drwyddedau Peiriannau Clybiau
- Cyflwyno Trwyddedau Peiriannau Clybiau i Glybiau Masnachol
- Rhoi trwyddedau ar gyfer defnyddio peiriannau gemau arian is mewn Canolfannau Adloniant i Deuluoedd heb drwydded;
- Derbyn hysbysiad gan safleoedd â thrwydded alcohol (dan Ddeddf Drwyddedu 2003) ar gyfer defnyddio dau neu lai o beiriannau gemau
- Cyflwyno Trwyddedau Peiriannau Gemau Safleoedd Trwyddedig ar gyfer safleoedd â thrwydded gwerthu/cyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle trwyddedig dan Ddeddf Trwyddedu 2003 os oes mwy nag un peiriant
- Cofrestru loteriau cymdeithasau bychain dan drothwyau penodol
- Cyflwyno Trwyddedau Gemau am Wobr
- Derbyn a chymeradwyo Hysbysadau Defnydd Dros Dro;
- Derbyn Hysbysadau Defnydd Achlysurol
- Rhoi gwybodaeth i'r Comisiwn Gamblo ynghylch manylion y trwyddedau a gyflwynir (gweler yr adran uchod ar 'gyfnewid gwybodaeth')
- Cynnal cofrestrau o'r trwyddedau a gyflwynir dan y swyddogaethau hyn

Dylid nodi nad yw awdurdodau trwyddedu yn ymwneud â thrwyddedu gamblo o bell o gwbl, sy'n cael ei reoleiddio gan y Comisiwn Gamblo drwy Drwyddedau Gweithredu.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod mai un dull yn unig o hyrwyddo cyflawni'r tri amcan yw'r swyddogaeth trwyddedu ac na ddylid ei hystyried fel dull o ddatrys pob problem yn y gymuned. Felly, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau cyfagos, Heddlu De Cymru, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, busnesau lleol, pobl leol a'r rhai sy'n ymwneud â diogelu plant, i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu fel y'u nodir. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod ei ddyletswydd dan Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 o ran atal troseddau ac anhrefn.

1.9 Hawliau Sylfaenol

Dan delerau'r Ddeddf, gall unrhyw unigolyn/cwmni wneud cais am amryw ganiatâd a chael ystyried ei geisiadau yn ôl ei rinweddau. Felly hefyd, mae gan unrhyw Barti â Diddordeb neu Awdurdod Cyfrifol hawl i wneud sylwadau perthnasol ar unrhyw gais neu geisio adolygiad trwydded neu dystysgrif os gwnaed darpariaeth iddynt wneud hyn yn y Ddeddf.

Mae gan ymgeiswyr a'r rhai sy'n cyflwyno sylwadau perthnasol mewn cysylltiad â cheisiadau i'r Awdurdod Trwyddedu hawl i apelio i'r Llys Ynadon yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdod Trwyddedu.

1.10 Integreiddio Strategaethau ac Osgoi Dyblygu

Trwy ymgynghori'n eang cyn cyhoeddi'r Datganiad Polisi hwn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried polisiau lleol yn llawn ac yn trafod atal troseddau, diwylliant, trafndiaeth, cynllunio a thwristiaeth fel rhan o strategaeth integredig ar gyfer yr Awdurdod Trwyddedu, yr Heddlu ac asiantaethau eraill. Mae'n bosibl na fydd rhai o'r strategaethau hyn yn gysylltiedig â hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu'n uniongyrchol, ond gallant effeithio arnynt.

Wrth ystyried unrhyw gais, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn osgoi dyblygu gyda gweithdrefnau rheoliadol eraill cyhyd ag y bo'n bosibl. Felly, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi amodau ar drwydded ac eithrio os ystyrir eu bod yn angenrheidiol, rhesymol a chymesur o ran defnyddio'r safle ar gyfer gamblo, yn unol â'r amcanion trwyddedu.

1.11 Strategaeth Gymunedol Datblygu Cynaliadwy

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn gofyn i'r holl awdurdodau lleol i gynhyrchu strategaeth gymunedol o fewn fframwaith Strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r DU – "Ansawdd Bywyd Gwell" a strategaethau rhanbarthol perthnasol eraill, ochr yn ochr â

Mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei wneud yn ofynnol i holl

awdurdodau lleol yng Nghymru i feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldeb iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Mae strategaethau cymunedol yn rhoi ffocws ar gyfer adnabod materion lleol a dyheadau ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol, diogelu amgylcheddol, cyflogaeth a datblygiad economaidd.

Mae partneriaethau strategaeth lleol, yn nodweddiadol yn cynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a chynrychiolwyr addysg, busnesau a sefydliadau'r sector gwirfoddol, yn gyfrifol dros gyflawni amcanion a osodir yn lleol.

Dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, rhaid i awdurdodau lleol ystyried yr effaith debygol a gaiff arfer eu swyddogaeth ar drosedd ac anhrefn yn yr ardal a gwneud popeth y gallant ei wneud i atal hynny. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried yn benodol effaith debygol trwyddedu ar drosedd ac anhrefn perthnasol yn y Sir, yn arbennig wrth ystyried lleoliad, effaith, gweithrediad a rheolaeth holl geisiadau am drwydded, am adnewyddu neu amrywio amodau.

2. Trwyddedau Safle Ystyried ceisiadau

2.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae Trwyddedau Safle yn awdurdodi darparu cyfleusterau gambo ar y canlynol :-

- Safleoedd Casino;
- Safleoedd Bingo;
- Safleoedd Betio (yn cynnwys traciau rasio a ddefnyddir gan ganolwyr betio);
- Canolfannau Hapchwarae i Oedolion;
- Canolfannau Adloniant i Deuluoedd.

Ac eithrio achosion Traciau (lle efallai nad y preswlydd fydd y person sy'n cynnig y gamblo), ni roddir Trwyddedau Safle ond i'r rhai y cyflwynir Trwydded Weithredu iddynt gan y Comisiwn Gamblo.

Mae Trwyddedau Safle yn ddibynnol ar y gofynion a nodir yn Neddf Gamblo 2005 a rheoliadau, yn ogystal ag amodau gorfodol a diofyn penodol, y ceir eu manylion mewn rheoliadau a gyflwynir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Gall awdurdodau trwyddedu eithrio amodau diofyn a hefyd osod rhai eraill a wêl yn briodol.

2.2 Diffiniad o “safleoedd”

Yn y Ddeddf, diffinnir “safle” fel “unrhyw le”. Felly, mae Adran 152 yn atal mwy nag un Drwydded Safle rhag bod yn berthnasol i unrhyw le. Ond gall un adeilad fod yn destun i fwy nag un Drwydded Safle, cyhyd â'u bod yn berthnasol i rannau gwahanol yn yr adeilad ac y gellir ystyried y gwahanol rannau fel gwahanol safleoedd. Mae'r dull hwn wedi caniatáu safleoedd mawr, aml-uned, megis parc hamdden, pier, trac neu ganolfannau siopa i gael Trwyddedau Safle ar wahân pan fo mesurau diogelu priodol mewn lle. Fodd bynnag, dylai awdurdodau trwyddedu dalu sylw penodol os oes materion ynghylch isrannu adeilad neu lain unigol a dylai sicrhau y cydymffurfir ag amodau gorfodol yn berthnasol i fynediad rhwng safleoedd.

Dywed y Comisiwn Gamblo ym mhumed argraffiad ei Ganllaw i Awdurdodau Trwyddedu fod: *“Yn rhan fwyaf yr achosion, y disgwyliad yw mai un adeilad / llain fydd yn destun y cais am drwydded, er enghraifft, 32 Stryd Fawr. Ond nid yw hynny'n golygu na all 32 Stryd Fawr fod yn destun Trwydded Safle ar wahân i'r islawr a'r llawr gwaelod, os ydynt wedi eu ffurfweddu'n dderbyniol. Bydd p'un a ellid ystyried rhannau gwahanol o adeiladau fel safle ar wahân yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Bydd lleoliad yr eiddo yn amlwg yn ystyriaeth bwysig ac mae addasrwydd y rhannu yn debygol o fod yn fater i'w drafod rhwng y gweithredwr a'r swyddog trwyddedu. Fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn yn ystyried y gellir trafod ardaloedd adeilad a rennir yn artiffisial, neu dros dro, er enghraifft gan raffau neu waliau rhannu symudadwy, fel safleoedd gwahanol.”*

Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n talu sylw penodol i Ganllaw'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu, sy'n nodi: dylai awdurdodau trwyddedu gymryd gofal arbennig wrth ystyried ceisiadau am aml-drwyddedau ar gyfer adeilad a'r rhai sy'n berthnasol i ran ar wahân o adeilad a ddefnyddir at ddibenion eraill (ac eithrio gamblo). Yn benodol, dylent fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Mae'r trydydd amcan trwyddedu'n ceisio diogelu plant rhag niwed yn sgil gamblo. Yn ymarferol, golyga hyn nid yn unig eu hatal rhag gamblo ond hefyd eu hatal rhag bod yn agos at gamblo. Felly, dylai safleoedd gael eu trefnu fel na wahoddir plant i gymryd rhan mewn, cael mynediad trwy gamgymeriad at neu wyllo gamblo o agos pan gânt eu gwahardd rhag cymryd rhan;
- Dylai mynediad i ac allanfeydd o rannau o adeilad sydd dan un neu ragor o Drwyddedau Safle gael eu gwahanu a bod yn amlwg fel na roddir y gwahanu mewn perygl ac nad yw pobl yn crwydro i ardal gamblo. Yn y cyd-destun hwn, dylai fod yn bosibl mynd i'r safle heb fynd trwy safle trwyddedu arall neu safle â thrwydded.
- Dylai bod cwsmeriaid yn gallu cymryd rhan yn y gweithgaredd a enwir ar y Drwydded Safle.

Mae'r Canllaw hefyd yn rhoi rhestr o ffactorau, y dylai'r Awdurdod Trwyddedu fod yn ymwybodol ohonynt, a allai gynnwys:

- Ydy'r safleoedd wedi cofrestru ar wahân at ddibenion ardrethu busnes?

- Ydy'r safleoedd cymdogol yn eiddo i'r un person neu i rywun arall?
- Oes modd mynd i bob un o'r safleoedd o'r stryd neu o lwybr cyhoeddus?
- Ai dim ond trwy safle gamblo arall y gellir mynd i'r safle?

2.3 Amgylchedd Trwydded Priodol

Mae'r Canllawiau i Awdurdodau Lleol ac Amodau Trwydded a Chodau Ymarfer (LCCP) a ddechreuodd ym mis Mai 2015 yn nodi materion ychwanegol y dylai'r Awdurdod Trwyddedu eu hystyried wrth ystyried ceisiadau am drwydded ar gyfer Trwyddedau Safle.

Mae'r Canllaw'n nodi rhwystrau ar weithgareddau gamblo ar safleoedd a adnabyddid ynghynt fel prif weithgaredd gamblo. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried unrhyw gais ar sail darpariaethau'r codau a'r canllaw hwn.

Os cynigir cyfleusterau gamblo yn y safle fel gweithgaredd ychwanegol at brif ddiben y safle, e.e. ardaloedd gwasanaeth traffordd a chanolfannau siopa, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i'r ardal gamblo fod wedi ei diffinio'n glir i sicrhau bod y cwsmeriaid yn gwbl ymwybodol eu bod yn dewis mynd i'r safle gamblo a bod y safle gamblo dan oruchwyliaeth briodol bob amser.

Bydd yr awdurdod yn ystyried hwn a ffactorau eraill perthnasol wrth wneud ei benderfyniad, yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos.

Atgynhychir darpariaethau mynediad perthnasol y Comisiwn Gamblo ar gyfer pob math o safle isod:

Casinos

- Rhaid i'r prif fynedfa i safle fod o stryd (fel y diffinnir yn 7.24 yn y Canllawiau)
- Ni ddylai mynedfa i gasino fod o safle a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant a/neu bobl ifanc
- Ni ddylai unrhyw gwsmer allu mynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o unrhyw safle arall â Thrwydded Safle gamblo.

Canolfan Gamblo i Oedolion

- Ni ddylai cwsmer allu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o unrhyw safle gamblo arall â thrwydded

Siopau Betio

- Rhaid cael mynediad o stryd (yn unol â pharagraff 7.23 Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu) neu o safle arall sydd â Thrwydded Safle betio.
- Ni ddylid defnyddio mynedfa uniongyrchol o siop fetio neu safle arall a ddefnyddir ar gyfer gwerthu nwyddau neu wasanaethau masnachol. I bob pwrpas, ni chaniateir mynedfa i siop fetio o siop o unrhyw fath ac ni chaniateir cynnal siop fetio yng nghefn

caffi – byddai'n rhaid trwyddedu'r holl ardal.

Traciau

- Ni ddylai unrhyw gwsmer gael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:
 - gasino
 - canolfan gemau i oedolion

Safle Bingo

- Ni ddylai unrhyw gwsmer gael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:
 - gasino
 - canolfan gemau i oedolion
 - safle betio ac eithrio trac

Canolfan Adloniant i Deuluoedd

- Ni ddylai unrhyw gwsmer gael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:
 - gasino;
 - canolfan gemau i oedolion;
 - safle betio ac eithrio trac

Mae Rhan 7 Canllaw'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu'n cynnwys rhagor o ganllawiau ar y mater hwn, y bydd yr awdurdod hwn hefyd yn ei ystyried wrth benderfynu.

2. 4 Safle “yn barod at gamblo”

Mae'r Canllaw yn nodi na ddylid ond cyflwyno trwydded i ddefnyddio eiddo ar gyfer gamblo mewn perthynas â safle y gall yr Awdurdod Trwyddedu fod yn fodlon y bydd yn barod i'w ddefnyddio ar gyfer gamblo yn y dyfodol rhesymol agos, yn unol â graddfa'r adeilad neu newidiadau y mae eu hangen cyn cychwyn defnyddio'r safle.

Os nad yw'r safle wedi ei adeiladu eto, neu os oes angen ei addasu neu os nad oes gan yr ymgeisydd hawl i'w feddiannu eto, yna dylid gwneud cais yn hytrach am ddatganiad dros dro.

Wrth benderfynu a ellid dyfarnu Trwydded Safle a gwaith adeiladu neu addasu ar ôl i'w wneud yn y safle, bydd yr awdurdod hwn yn penderfynu ceisiadau fesul un, gan ddefnyddio proses ystyried dau gam:

- Yn gyntaf, a ddylid caniatáu defnyddio'r safle ar gyfer gamblo
- Yn ail, a ellid gosod amodau priodol ar gyfer sefyllfa lle nad ydy'r safle yn y cyflwr y dylai fod ynddi cyn cychwyn gamblo.

Dylai ymgeiswyr sylwi bod hawl gan yr awdurdod i benderfynu ei bod yn briodol rhoi trwydded yn amodol ar amodau ond nid yw'n rhaid rhoi trwydded felly.

Ceir rhagor o enghreifftiau o'r amgylchiadau y byddai'n ei gwneud yn bosibl rhoi trwydded yn

y Canllaw ym mharagraffau 7.60-7.67.

2.5 Lleoliad

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ymwybodol na ellir ystyried materion galw o ran lleoliad y safle ond bod ystyriaethau o ran yr amcanion trwyddedu yn berthnasol i'r penderfyniad a wna. Yn unol â Chanllaw'r Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu bydd yr awdurdod hwn yn talu sylw penodol i ddiogelu plant a phobl sy'n agored i niwed rhag niwed neu ecsbloetio gan gamblo, yn ogystal â phroblemau trosedd ac anhrefn, ond penderfynir ar bob cais yn unol â'i rinweddau.

2.6 Cynllunio

Mae Canllaw'r Comisiwn Gamblo i'r Awdurdodau Trwyddedu'n nodi:

7.60 - Wrth benderfynu ceisiadau, mae dyletswydd ar yr Awdurdod Trwyddedu i ystyried yr holl faterion perthnasol a pheidio ag ystyried unrhyw faterion amherthnasol h.y. y rhai nad ydynt yn berthnasol â gamblo a'r amcanion trwyddedu. Enghraifft o fater amherthnasol fyddai'r tebygrwydd bod yr ymgeisydd yn cael caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar gyfer ei gynnis.

Ni fydd yr awdurdod hwn yn ystyried materion amherthnasol yn unol â'r canllaw uchod. Yn ogystal, mae'r awdurdod hwn yn nodi'r dyfyniad canlynol o'r Canllaw:

7.67 - Wrth ddelio á chais am Drwydded Safle ar gyfer adeiladau gorffenedig, ni ddylai'r Awdurdod Trwyddedu ystyried a yw'r caniatâd cynllunio neu adeiladu perthnasol gan yr adeiladau hynny nac a ydynt yn cydymffurfio. Dylid delio â'r materion hynny dan y grymoedd rheoli cynllunio a rheoleiddio adeiladu perthnasol, ac ni ddylent fod yn rhan o'r ystyriaeth ar gyfer y Drwydded Safle. Mae Adran 210 Deddf 2005 yn atal awdurdodau trwyddedu rhag ystyried y tebygrwydd bod cynnis yr ymgeisydd yn cael caniatâd cynllunio neu adeiladu wrth ystyried cais am Drwydded Safle. Yn yr un modd nid yw rhoi Trwydded Safle gamblo yn rhagfarnu nad yn atal unrhyw gamau gweithredu a allai fod yn briodol dan y gyfraith sy'n gysylltiedig â chynllunio neu adeiladu.

2.7 Dyblygu gyda cyfundrefnau rheoliadol eraill

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ceisio osgoi dyblygu unrhyw systemau statudol / rheoliadol pan fo'n bosibl, yn cynnwys cynllunio. Ni fydd yr awdurdod hwn yn ystyried a yw cais am drwydded yn debygol o gael caniatâd cynllunio neu ganiatâd rheoliadau adeiladu wrth benderfynu. Ond bydd yn gwranddo ac yn ystyried yn ofalus unrhyw bryderon am amodau nad yw'r trwyddedai'n gallu eu bodloni oherwydd cyfyngiadau cynllunio arnynt pe cyfyd sefyllfa felly.

Wrth ddelio â chais am Drwydded Safle ar gyfer adeiladau gorffenedig, ni fydd yr awdurdod hwn yn ystyried a oes rhaid i'r adeiladu hynny gydymffurfio â'r caniatâd cynllunio neu adeiladu perthnasol. Ni ystyrir risgiau tân neu iechyd oherwydd yr ymdrinnir â'r materion hyn dan y rheolau cynllunio, adeiladau a rheoliadau eraill ac ni chânt fod yn rhan o'r ystyriaeth ar gyfer Trwydded Safle.

2.8 Amcanion trwyddedu

Rhaid i'r Trwyddedau Safle a ddyfernir gydymffurfio'n rhesymol â'r amcanion trwyddedu. O ran yr amcanion hyn, mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn wedi ystyried Canllaw'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu ac mae rhai sylwadau isod.

Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhwylder, bod yn gysylltiedig â throedd neu anhwylder neu'n cael ei ddefnyddio i gefnogi troseddau - Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ymwybodol bod y Comisiwn Gamblo yn flaenllaw wrth atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell troseddau. Mae Canllaw'r Comisiwn Gamblo, fodd bynnag, yn rhagweld y dylai'r awdurdodau trwyddedu dalu sylw i'r lleoliad a gynigir ar gyfer safle gamblo o ran yr amcan trwyddedu hwn. Felly, os yw'n hysbys bod lefelau uchel o droseddau cyfundrefnol mewn ardal, bydd yr awdurdod hwn yn ystyried yn ofalus a yw'n addas gosod safle gamblo yno ac a fyddai gosod amodau'n addas, megis rhoi goruchwylwyr drws. Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng anhrefn a niwsans a bydd yn ystyried ffactorau megis (er enghraifft a fu angen cymorth gan yr heddlu a pha mor fygythiol oedd yr ymddygiad o safbwynt y rhai a oedd yn dyst iddo) er mwyn gwahaniaethu.

Sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored - Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn wedi nodi bod y Comisiwn Gamblo yn dweud, yn gyffredinol, nad yw'n disgwyl i awdurdodau trwyddedu ymwneud â sicrhau y cynhelir gweithgareddau gamblo yn deg ac agored, oherwydd eir i'r afael â hyn trwy'r trwyddedau gweithredu a phersonol. *Ar gyfer Awdurdodau Lleol sydd â thraciau*: Fodd bynnag, mae rôl fwy o ran traciau, a eglurir mewn rhagor o fanylder yn yr adran 'traciau' - gweler tudalen 14).

Amddiffyn plant a phobl eraill sy'n agored i niwed neu eu hecsploetio gan gamblo - Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn wedi nodi Canllawiau'r Comisiwn Gamblo bod yr amcan hwn yn golygu atal plant rhag cymryd rhan mewn gamblo (yn ogystal â chyfyngu ar hysbysebu fel nad yw cynhyrchion gamblo wedi'u hanelu at neu eu bod, yn arbennig o ddeniadol i blant). Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, felly, yn ystyried, fel y nodir yng Nghanllaw'r Comisiwn Gamblo, p'un a oes angen mesurau penodol mewn safleoedd penodol o ran yr amcan trwyddedu hwn. Gall mesurau priodol gynnwys goruchwyllo mynediadau/peiriannau, gwahanu ardaloedd ac ati.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn hefyd yn ymwybodol o Godau Ymarfer y Comisiwn Gamblo o ran yr amcan trwyddedu hwn, mewn perthynas â safleoedd penodol.

O ran y term "personau sy'n agored i niwed", nodir nad yw'r Comisiwn Gamblo'n ceisio cynnig diffiniad ond yn hytrach yn dweud "y bydd, at ddibenion rheoliadol yn cymryd bod y grwp hwn

yn cynnwys pobl sy'n gamblo mwy nag y dymunent, pobl sy'n gamblo mwy o arian nag y gallent ei fforddio a phobl na allant wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth neu gytbwys ynghylch gamblo efallai oherwydd bod arnynt nam meddyliol, neu oherwydd alcohol neu gyffuriau.” Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ystyried yr amcan trwyddedu hwn fesul achos.

Mae Canllaw'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol yn nodi'r pethau y mae'n rhaid i weithredwr eu hystyried er mwyn diogelu plant a phob ifanc rhag mynd i safle gamblo.

Mae'r Amodau Trwyddedu a'r Codau Arfer (LCCP) a gyhoeddwyd yn 2015 yn dweud sut y mae'n rhaid i weithredwyr atal plant rhag defnyddio gweithgareddau gemau neu gamblo y mae arnynt gyfyngiad oedran, yn arbennig os yw'r peiriannau'n drwyddedig.

Yn benodol, rhaid i'r gweithredwyr sicrhau'r canlynol:

- bod yr holl staff wedi eu hyfforddi;
- bod yr holl gwsmeriaid yn cael eu goruchwyllo yn y safle gamblo;
- bod yn rhaid bod gweithdrefnau ar gyfer adnabod cwsmeriaid sydd mewn risg o niwed cysylltiedig â gamblo.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl bod gan yr holl weithredwyr bolisiau a gweithdrefnau mewn lle yn ôl gofynion codau'r LCCP ar gyfrifoldeb cymdeithasol i drafod pob agwedd ar y cod, yn benodol y cofnodion hyfforddi staff a'r cofnodion hunan-eithrio.

Cynhwysir darpariaethau pellach ar destun hunan-eithrio a marchnata yn y cod cyfrifoldeb cymdeithasol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried yr holl amodau a chodau wrth ystyried ceisiadau neu wrth orfodi.

Gweler adran 6 y datganiad polisi hwn am ragor o fanylion ac ar gyfer gofynion yr Awdurdod Trwyddedu o ran y LCCP.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried Adroddiad Prif Swyddog Meddygol Cymru er mwyn cefnogi'r amcan trwyddedu er mwyn diogelu plant a phobl eraill sy'n agored i niwed rhag cael niwed neu eu hecsbloetio gan gamblo.

Byddai'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr a deiliaid trwydded wneud y profion angenrheidiol ar holl aelodau staff perthnasol i sicrhau eu bod yn addas i'w cyfogi, yn arbennig mewn safleoedd lle caiff plant a phobl agored i niwed fynediad.

2.9 Bet-Watch

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n annog ac yn cynorthwyo gweithredwyr lleol i greu a chynnal rhwydwaith rhannu gwybodaeth i drafod gamblwyr trafferthus a nodir. Bydd hwn hefyd yn gyfle i'r gweithredwyr drafod materion â'r swyddogion trwyddedu.

2.10 Amodau

Bydd unrhyw amodau ar y drwydded yn gymesur a byddant yn:

- berthnasol i'r angen i wneud yr adeilad a gynigir yn addas fel cyfleuster gamblo;
- uniongyrchol berthnasol i'r eiddo a math y drwydded y gwneir cais amdani;
- teg a rhesymol berthnasol i raddfa a math y safle; a
- rhesymol ym mhob agwedd arall.

Gwneir penderfyniadau ar amodau unigol ar sail achos wrth achos, er y bydd nifer o fesurau y bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried eu defnyddio petai angen canfyddedig, megis defnyddio goruchwylwyr, arwyddion priodol ar gyfer ardaloedd i oedolion yn unig, ac ati. Bydd sylw penodol yn cael ei roi i'r asesiad risg lleol ar gyfer pob adeilad, ac yn dystiolaeth o risg benodol wrth wneud penderfyniadau o'r fath. Mae sylwadau penodol wedi eu gwneud yn hyn o beth o dan rai o'r mathau o drwydded isod. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn hefyd yn disgwyl i'r ymgeisydd trwydded gynnig ei awgrymiadau ei hun ynglŷn â sut y gellir bodloni'r amcanion trwyddedu yn effeithiol.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn hefyd yn ystyried mesurau penodol y gallai bod eu hangen ar gyfer yr adeiladau, sy'n destun amryw drwyddedau safle. Gallai mesurau felly gynnwys goruchwyllo mynediadau; gwahanu ardaloedd gamblo rhag ardaloedd lle nad oes gamblo a lle'r aiff plant; a goruchwyllo peiriannau gemau mewn safle gablo nad ydynt ar gyfer oedolion yn unig er mwyn cyflawni'r amcanion trwyddedu. Mae'r materion hyn yn unol â Chanllawiau a Chodau Ymarfer y Comisiwn Gamblo.

Bydd yr awdurdod hwn hefyd yn sicrhau'r canlynol pan fo peiriannau categori C neu uwch mewn safle lle caniateir plant:

- rhoddir peiriannau felly mewn ardal yn y safle a wahenir oddi wrth weddill y safle gan rwystr corfforol, sy'n atal mynediad ac eithrio trwy fynedfa benodol;
- oedolion yn unig a ganiateir yn yr ardal lle mae'r peiriannau hyn;
- goruchwylir mynediad i'r ardal lle mae'r peiriannau hyn;
- trefnir yr ardal lle mae'r peiriannau hyn fel y gall y staff neu ddeiliad y drwydded ei goruchwyllo; ac
- yn y fynedfa i a'r tu mewn i ardal felly, mae arwyddion ar ddangos yn amlwg yn nodi y gwaherddir mynediad i'r ardal i blant dan 18.

bydd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i safleoedd, yn cynnwys adeiladau lle mae aml i Drwydded Safle'n weithredol.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ymwybodol y gall mwy nag un Drwydded Safle fod yn berthnasol i draciau, cyn belled â bod pob Trwydded Safle'n berthnasol i ardal benodol yn y trac. Yn ôl Canllaw'r Comisiwn Gamblo, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ystyried yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu a'r angen i sicrhau bod mynedfa i bob un o'r safleoedd ar wahân ac y cedwir plant allan o'r ardaloedd na chant fynd iddynt.

Sylwir bod amodau na all yr Awdurdod Trwyddedu eu gosod ar Drwyddedau Safle, sef:

- unrhyw amod ar y Drwydded Safle sy'n ei gwneud yn amhosibl cydymffurfio ag amod Trwydded Weithredu;
- amodau sy'n berthnasol i gategoriâu peiriannau gemau, rhifau neu ddull gweithredu;
- amodau sy'n dweud bod angen aelodaeth i glwb neu gorff (mae Deddf Gamblo 2005 yn diddymu'r angen i fod yn aelod o gasino neu glybiau ac mae'r ddarpariaeth hon yn atal ei ail-weithredu); ac
- amodau sy'n berthnasol i arian betio, ffioedd, enillion neu wobrau.

2.11 Goruchwylwyr Drws

Mae'r Comisiwn Gamblo yn dweud yn ei Ganllaw i Awdurdodau Trwyddedu os yw Awdurdod Trwyddedu'n pryderu y gall safle ddenu anrhefn anhrefn neu y gallai pobl na chaniateir geisio mynd iddo (e.e. plant a phobl ifanc), y gall ei gwneud yn ofynnol i'r mynedfeydd i'r safle gael eu rheoli gan oruchwyllydd drws, ac mae ganddo hawl i osod trwydded safle sy'n unol â hyn.

Pan benderfynir bod goruchwyllo mynedfa/peiriannau yn briodol mewn achosion penodol, bydd angen ystyried a oes angen bod gan y goruchwylwyr drwydded ADD. Ni chymerir yn ganiataol bod angen trwydded SIA arnynt oherwydd bod y gofynion statudol ar gyfer gwahanol fathau o eiddo yn amrywio (yn unol â'r Canllawiau, Rhan 33).

2.12 Canolfannau Gamblo i Oedolion

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ystyried yn benodol yr angen i ddiogelu plant a phobl sy'n agored i niwed rhag niwed neu gael eu hecsbloetio gan gemau a bydd yn disgwyl y bydd yr ymgeisydd yn bodloni'r awdurdod bod digon o fesurau er enghraifft i sicrhau na chaiff plant dan 18 fynd i'r safle.

Os cynigir cyfleusterau gamblo yn y safle fel gweithgaredd ychwanegol at brif ddiben y safle, e.e. ardaloedd gwasanaeth traffordd a chanolfannau siopa, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i'r ardal gamblo fod wedi ei diffinio'n glir i sicrhau bod y cwsmeriaid yn gwbl ymwybodol eu bod yn dewis mynd i'r safle gamblo a bod y safle gamblo dan oruchwyliaeth briodol bob amser.

Gall yr Awdurdod Trwyddedu hwn ystyried mesurau i gyflawni'r amcan trwyddedu, megis:

- Cynlluniau prawf oedran

- Teledu cylch cyfyng
- Goruchwylio mynedfaoedd / ardaloedd peiriannau
- Gwahanu ardaloedd yn gorfforol
- Lleoliad y fynedfa
- Hysbysebion / arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau hunan-eithrio
- Darparu taflenni gwybodaeth/llynellau cymorth ar gyfer sefydliadau megis GameCare.

Nid yw'r rhestr yn orfodol, nac yn derfynol, enghreifftiau o fesuriadau yn unig sydd.

2.13 Canolfannau Adloniant i Deuluoedd (Trwyddedig)

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ystyried yn benodol yr angen i ddiogelu plant a phobl sy'n agored i niwed rhag niwed neu gael eu hecsbloetio gan gemau a bydd yn disgwyl y bydd yr ymgeisydd yn bodloni'r awdurdod, er enghraifft, fod digon o fesurau er enghraifft i sicrhau na chaiff plant dan 18 fynd i'r safle i'r ardaloedd peiriannau gemau i oedolion yn unig.

Gall yr Awdurdod Trwyddedu hwn ystyried mesurau i gyflawni'r amcan trwyddedu, megis:

- Teledu cylch cyfyng
- Goruchwylio mynedfaoedd / ardaloedd peiriannau
- Gwahanu ardaloedd yn gorfforol
- Lleoliad y fynedfa
- Hysbysebion / arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau hunan-eithrio
- Darparu taflenni gwybodaeth/llynellau cymorth ar gyfer sefydliadau megis GameCare.
- Mesuriadau / hyfforddiant ar gyfer staff i ddelio â phlant yr amheuir eu bod yn chwarae triwant o'r ysgol ar y safle.

Nid yw'r rhestr yn orfodol, nac yn derfynol, enghreifftiau o fesuriadau yn unig sydd.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, yn cyfeirio at wefan y Comisiwn i weld unrhyw amodau sy'n berthnasol i Drwyddedau Gweithredu sy'n cwmpasu'r ffordd y dylid nodi'r ardal sy'n cynnwys y peiriannau categori C. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn hefyd yn gwneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw amodau gorfodol neu ddiofyn ar y Trwyddedau Safle hyn, pan fyddant wedi'u cyhoeddi.

2.14 Casinos

Dan ddarpariaethau Adran 166 Deddf Gamblo 2005, gall awdurdod ddatrys peidio â chyhoeddi Trwyddedau Safle Casino. Nid yw'r Awdurdod wedi gwneud unrhyw ddyfarniad

o'r fath. Bydd y Pwyllgor Trwyddedu yn ystyried unrhyw ddeiseb sydd wedi'i llofnodi gan neb llai na 50 o bobl yn gofyn am wneud penderfyniad o'r fath a gwneud argymhelliad ar y cynnig i'r Cyngor llawn i'w hystyried a phenderfyniad.

Awdurdodau Lleol yn unig: Casinos a chynnig cystadleuol – Casinos bach/Mawr - Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ymwybodol, pan fo ardal Awdurdod Trwyddedu yn cael ei alluogi i roi Trwydded Safle ar gyfer casino arddull newydd (h.y. mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud rheoliadau o'r fath dan Adran 175 Deddf Gamblo 2005) mae'n debygol y bydd nifer o weithredwyr a fydd am redeg y casino. Mewn sefyllfaoedd felly bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal 'cystadleuaeth' dan Atodlen 9 Deddf Gamblo 2005. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn cynnal cystadleuaeth o'r fath yn unol ag unrhyw reoliadau / codau ymarfer a gyhoeddwyd dan Ddeddf Gamblo 2005.

Ystyriaethau / amodau trwydded - Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn atodi amodau i Drwyddedau Safle Casino yn ôl yr egwyddorion a nodir yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo ym mharagraff 9, gan gofio'r amodau gorfodol a restrir ym mharagraff 17 o'r Canllawiau, ac Amodau'r Drwydded a'r Codau Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo.

2.15 Safleoedd Betio

Peiriannau betio

Mae'r Ddeddf yn dweud nad yw peiriant yn beiriant gemau os yw wedi ei ddylunio i'w ddefnyddio i fetio ar ddigwyddiadau go iawn yn y dyfodol. Gall safleoedd betio roi peiriannau ar gael sy'n cymryd betiau ar ddigwyddiadau ar y pryd, megis rasio ceffylau yn lle rhoi bet dros y cownter. Nid peiriannau gemau yw'r "peiriannau betio" hyn: dim ond awtomeiddio'r broses a wnânt, y gellir ei wneud mewn person ac felly nid oes angen eu rheoleiddio fel peiriant gemau.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn unol â Chanllaw'r Comisiwn Gamblo, yn ystyried maint y safle, nifer y safleoedd cownter sydd ar gael ar gyfer trafodion person i berson a gallu'r staff i fonitro plant a phobl ifanc yn defnyddio'r peiriannau (mae'n drosedd i'r rhai dan 18 fetio) neu gan bobl sy'n agored i niwed wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau'r peiriannau betio mae gweithredwr am eu cynnig.

2.16 Safleoedd Bingo

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn nodi bod Canllawiau'r Comisiwn Gamblo yn nodi:

18.4 Bydd angen i Awdurdodau Trwyddedu fodloni eu hunain y gellir chwarae bingo mewn unrhyw safle bingo y mae ganddynt Drwydded Safle ar ei gyfer. Bydd hwn yn ystyriaeth berthnasol os yw gweithredwr safle bingo presennol yn gwneud cais i amrywio ei drwydded er mwyn eithrio ardal yn yr eiddo presennol rhag ei gwmpas ac yna'n gwneud cais am Drwydded Safle newydd, neu amryw drwydded, ar gyfer yr ardal honno/ardaloedd hynny a eithriwyd.

Mae'r awdurdod hwn hefyd yn nodi'r Canllawiau ym mharagraff 18.8 ynglŷn â'r amgylchiadau anarferol lle gellid caniatáu rhannu safle sy'n bodoli eisoes yn ddau safle cyfagos, ac yn arbennig na chaniateir iddo leoli un ar bymtheg o beiriannau gamblo categori B3 yn un o'r safleoedd sy'n deillio o hynny, gan y byddai'r hawl peiriant gamblo ar gyfer y safle hwnnw yn cael ei ragori.

18.7 Plant a phobl ifanc yn cael mynd i safle bingo; fodd bynnag, ni chaniateir iddynt gymryd rhan yn y bingo ac os y gwneir bod peiriannau categori B neu C ar gael i'w defnyddio rhaid gwahanu'r rhain oddi wrth ardaloedd lle caniateir plant a phobl ifanc.

2.17 Traciau

Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ymwybodol y gall mwy nag un Drwydded Safle fod yn berthnasol i draciau, cyn belled â bod pob Trwydded Safle'n berthnasol i ardal benodol yn y trac. Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ystyried yn arbennig yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu (h.y. diogelu plant a phobl sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu ecsbloetio gan gamblo) a'r angen i sicrhau bod mynedfaoedd i bob math i eiddo ar wahân ac y cedwir plant allan o ardaloedd gamblo lle na chant fynd.

Bydd yr awdurdod hwn felly'n disgwyl i'r ymgeisydd am Drwydded Safle ddangos mesurau addas i sicrhau na chaiff plant fynd i gyfleusterau ar gyfer oedolion yn unig. Nodir y caiff plant a phobl ifanc fynd i ardaloedd trac lle cynigir cyfleusterau betio ar ddyddiau rasys cŵn a/neu geffylau, ond serch hynny, ni chânt fynd i ardaloedd lle mae gemau gamblo (ac eithrio rhai categori D).

Gall yr Awdurdod Trwyddedu hwn ystyried mesurau i gyflawni'r amcan trwyddedu, megis:

- Cynlluniau prawf oedran
- Teledu cylch cyfyng
- Goruchwylio mynedfaoedd / ardaloedd peiriannau
- Gwahanu ardaloedd yn gorfforol
- Lleoliad y fynedfa
- Hysbysebion / arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau hunan-eithrio
- Darparu taflenni gwybodaeth/llynellau cymorth ar gyfer sefydliadau megis GameCare

Nid yw'r rhestr yn orfodol, nac yn derfynol, enghreifftiau o fesuriadau yn unig sydd.

2.18 Peiriannau Gemau

Caniateir nifer o gategoriâu peiriannau gemau mewn safleoedd trwyddedig ac eraill ac mae manylion faint o beiriannau felly y gellid eu caniatáu ym mhob math o safle gamblo yn y Ddeddf. Nid yw'r grym gan y Cyngor i osod gwahanol gyfyngiadau nac ehangu neu gyfyngu categorïau'r peiriannau a ganiateir ymhellach. Yr eithriad i hyn yw safleoedd trwyddedig ar gyfer alcohol â thrwyddedau peiriannau gemau, yn y sefyllfa hon mae gan awdurdodau trwyddedu ddisgresiwn i fanlyu faint o beiriannau gemau a ganiateir. Yn ogystal, nodir y cyfyngiadau ar wahân yn y Ddeddf ar gyfer mathau penodol o drwydded a gyflwynir gan yr awdurdodau trwyddedu. Mae gwybodaeth am hawl peiriannau gemau i'w gweld ar [wefan y Comisiwn Gamblo](#).

Mae lleiafswm oedran ar gyfer chwaraewyr pob peiriant categori A, B a C, sef 18, yn cynnwys hefyd peiriannau gemau B3A sy'n cynnig gemau dull loteri. Fodd bynnag, nid oes lleiafswm oedran ar gyfer chwaraewyr peiriannau categori D. Rhaid i ddeiliad unrhyw drwydded neu drwydded safle gydymffurfio â chodau ymarfer a gyflwyna'r Comisiwn ar leoliad peiriannau gemau a'r mynediad a gaiff plant a phobl ifanc atynt, a gwahanu peiriannau categori C a B pan fo'r rheiny ar yr un safle.

Pan fo Trwydded Weithredu betio pŵls gan yr ymgeisydd ac mae'n mynd i ddefnyddio ei hawl ar bedwar peiriant gamblo, dylai roi'r peiriannau (ac eithrio rhai categori D) mewn ardaloedd lle na chaniateir plant.

2.19 Peiriannau Betio

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn unol â Rhan 6 Canllaw'r Comisiwn Gamblo, yn ystyried maint y safle a gallu'r staff i fonitro plant a phobl ifanc yn defnyddio'r peiriannau (mae'n drosedd i'r rhai dan 18 fetio) neu gan bobl sy'n agored i niwed wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau'r peiriannau betio mae gweithredwr am eu cynnig.

2.20 Ceisiadau a chynlluniau

Mae'r Ddeddf Gamblo (a51) a'r Rheoliadau'n gofyn i ymgeiswyr gyflwyno cynlluniau'r safle gyda'u cais, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth angenrheidiol gan yr Awdurdod Trwyddedu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch p'un ai yw'r safle yn addas ar gyfer gamblo. Caiff y cynllun hefyd ei ddefnyddio er mwyn i'r Awdurdod Trwyddedu gynllunio archwiliadau safle yn y dyfodol.

Nid oes angen i gynlluniau ar gyfer traciau fod yn ôl graddfa benodol ond rhaid iddynt gael eu llunio i raddfa a bod yn ddigon manwl i gynnwys y wybodaeth mae ei hangen gan reoliadau.

Mae'n bosibl y lleolir rhai traciau ar dir amaeth lle na ddiffinnir y perimedr gan wall allanol neu ffens, megis traciau rasio pwynt i bwynt. Mewn achosion felly, os codir ffi fynediad, gall deiliaid Trwyddedau Safle trac godi strwythurau dros dro i atal mynediad i'r safle.

Yn yr achosion prin, lle na ellid diffinio'r perimedr allanol, mae'n debygol nad yw'r trac hwnnw wedi ei gynllunio ar gyfer cynnal digwyddiadau chwaraeon neu rasys yn rheolaidd. Felly, efallai y byddai'n well darparu cyfleusterau betio lle nad oes angen diffinio ffiniau'r safle.

Mae'r awdurdod hwn yn deall ei bod yn anodd weithiau diffinio union leoliad ardaloedd betio ar dracio. Nid oes angen dangos union leoliad lle rhoddir cyfleusterau betio ar gynlluniau trac, oherwydd y caniateir betio unrhyw le ar y safle ac oherwydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â lleoli union fannau ar rai mathau o drac. Dylai ymgeiswyr roi digon o wybodaeth y gall yr awdurdod hwn fod yn fodlon bod y cynllun yn nodi'r prif fannau lle bydd betio. Ar gyfer cyrsiau rasio yn benodol, rhaid nodi unrhyw ardaloedd betio sy'n destun y "rheol pum tro" (neu gylchoedd betio) ar y cynllun.

2.21 Ffeiriau Teithiol

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn gyfrifol dros benderfynu, pan fo peiriannau categori D a/neu gamblo am wobwr â chyfle cyfartal heb drwydded ar gael i'w defnyddio mewn ffeiriau teithiol, a fodlonir y gofyniad nad yw'r cyfleusterau gamblo'n fwy na ffynhonnell adloniant ategol.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ystyried a yw'r ymgeisydd yn dod o fewn y diffiniad statudol o ffair deithiol.

Nodir bod yr uchafswm statudol o 27 diwrnod ar gyfer y tir sy'n cael ei ddefnyddio fel ffair yn berthnasol fesul blwyddyn galendr, a'i fod yn berthnasol i'r darn o dir y cynhelir y ffeiriau arno, ni waeth a yw'r un ffeiriau teithiol neu wahanol ffeiriau teithio sy'n meddiannu'r tir. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gweithio â'r awdurdodau cyfagos i sicrhau bod tir sy'n croesi ein ffiniau yn cael ei fonitro fel nad eir dros y cyfyngiadau statudol.

2.22 Datganiadau Dros Dro

Mae'n bosibl y dymuna datblygwyr wneud cais i'r awdurdod hwn am ddatganiadau dros dro cyn mynd i gontract i brynu neu brydlesu eiddo i farnu a yw'n werth bwrw ymlaen â datblygiad o ystyried yr angen am Drwydded Safle. Nid oes angen bod gan yr ymgeisydd Drwydded Weithredu er mwyn gwneud cais am ddatganiad dros dro.

Mae Adran 204 y Ddeddf Gamblo yn caniatáu i berson wneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu am ddatganiad dros dro ar gyfer safle y mae'n:

- disgwyl y caiff ei godi;
- disgwyl y caiff ei addasu; neu
- y mae'n disgwyl cael hawl i'w feddiannu.

Mae'r broses ar gyfer ystyried cais am ddatganiad dros dro yr un ag ar gyfer cais am Drwydded Safle. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd roi rhybudd am y cais yn yr un ffordd ag ar gyfer Trwydded Safle. Caiff awdurdodau â chyfrifoldeb a phartïon a diddordeb wneud sylwadau ac mae

hawliau i apelio.

I'r gwrthwyneb o geisiadau am Drwyddedau Safle, nid oes rhaid bod yr ymgeisydd wedi gwneud cais am Drwydded Weithredu gan y Comisiwn Gamblo (ac eithrio mewn achos trac) ac nid oes rhaid bod ganddo hawl i feddiannu'r safle y gwna gais dros dro ar ei gyfer.

Gall deiliad datganiad dros dro wedyn wneud cais am Drwydded Safle pan fo'r eiddo wedi ei godi, addasu neu ei gael. Bydd cyfyngiadau ar y materion y gall yr Awdurdod Trwyddedu eu hystyried wrth benderfynu ynghylch cais am Drwydded Safle, ac o ran sylwadau ynghylch ceisiadau am Drwydded Safle sy'n dilyn dyfarnu datganiad dros dro ni cheir ystyried sylwadau gan awdurdodau perthnasol na phartïon â diddordeb ac eithrio:

- os ydynt yn berthnasol i faterion na ellid bod wedi mynd i'r afael â nhw yn y cam datganiad dros dro, neu
- os ydynt yn cynrychioli newid yn amgylchiadau'r ymgeisydd.

Yn ogystal, gall yr awdurdod wrthod y Drwydded Safle (neu ei dyfarnu ar delerau sy'n wahanol i'r rhai sydd ynghlwm wrth y datganiad dros dro) trwy gyfeirio ar y materion canlynol yn unig:

- rhai na ellid bod wedi eu codi gan wrthwynebwyr yn y cam datganiad dros dro;
- rhai sydd, ym marn yr awdurdod, yn cynrychioli newid yn amgylchiadau'r gweithredwr; neu
- os nad yw'r safle wedi ei godi yn unol â'r cynllun a gyflwynwyd â'r cais. Rhaid bod newid sylweddol i'r cynllun ac mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn nodi y gall drafod unrhyw bryderon sydd ganddo â'r ymgeisydd cyn penderfynu.

3. Trwyddedau/Hysbysiadau Defnydd Dros Dro ac Achlysurol

3.1 Trwyddedau Peiriant Gemau Canolfan Adloniant i Deuluoedd Didrwydded (Datganiad o Egwyddorion ar Drwyddedau - Atodlen 10 paragraff 7)

Safleoedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl, neu'n bennaf, ar gyfer rhoi peiriannau gemau ar gael

a gaiff fod yn Ganolfan Adloniant i Deuluoedd Heb drwydded. O ganlyniad, ar y cyfan ni chaniateir i eiddo felly fod yn ganolfan siopa gyfan, maes awyr, gorsaf wasanaethau ar y draffordd na llefydd o'r math. Yn nodweddiadol, bydd y peiriannau mewn ardal amgaeedig benodol, ac wedi ei diffinio'n glir pan wneir cais i'r Awdurdod Trwyddedu.

Os nad oes gan safle Drwydded Safle, ond y mae'n dymuno darparu peiriannau gemau, gall wneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu am drwydded at y diben hwn. Dylid nodi bod yn rhaid i'r ymgeisydd ddangos y bydd y safle'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer sicrhau bod peiriannau gemau ar gael i'w defnyddio (Adran 238).

Mae Deddf Gamblo 2005 yn nodi y gall Awdurdod Trwyddedu baratoi *datganiad o egwyddorion* eu bod yn bwriadu ystyried pennu addasrwydd ymgeisydd am drwydded ac wrth baratoi'r datganiad hwn, a/neu ystyried ceisiadau, nid oes angen iddo (ond efallai) roi sylw i'r amcanion trwyddedu a bydd ganddynt sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn o dan adran 25. Mae Canllaw'r Comisiwn Gamblo i'r Awdurdodau Trwyddedu'n nodi: "*Yn eu datganiad polisi trwyddedu pob tair blynedd, gall awdurdodau trwyddedu gynnwys datganiad o egwyddorion y maent yn bwriadu gwneud cais wrth arfer eu swyddogaethau wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau...., bydd awdurdodau trwyddedu eisïau rhoi pwysau i faterion amddiffyn plant.*" (24.6)

Mae'r canllawiau hefyd yn dweud: "*... Dim ond os yw'r Awdurdod Trwyddedu yn fodlon y bydd y safle'n cael ei ddefnyddio fel CAiD heb drwydded, ac os ymgynghorwyd â phrif swyddog yr heddlu ar y cais.... Efallai y byddai awdurdodau trwyddedu am ystyried gofyn ceisiadau i ddangos:*

- *Dealltwriaeth lawn o'r arian gamblo a'r gwobrwyon a ganiateir mewn CAiD heb drwydded;*
- *nad oes euogfarn yn berthnasol i'r ymgeisydd (y rhai a nodir yn Atodiad 7 y Ddeddf);*
- *bod y staff wedi eu hyfforddi i ddeall yn llawn yr uchafsymiau ar gyfer arian gamblo a gwobrwyon.* (24.7)

Dylid nodi na all Awdurdod Trwyddedu atodi amodau i'r math hwn o drwydded.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i'r ymgeisydd ddangos bod polisiau a gweithdrefnau i ddiogelu plant rhag niwed. Nid niwed drwy gamblo yn unig yw niwed yn y cyd-destun hwn; mae'n cynnwys ystyriaethau amddiffyn plant ehangach. Fodd bynnag, bydd effeithlonrwydd polisiau a gweithdrefnau o'r fath yn cael eu hystyried yn ôl eu rhinweddau, fodd bynnag, gallant gynnwys mesurau / hyfforddiant priodol i staff o ran plant ysgol triwant a ddrwgdybir ar y safle, mesurau / hyfforddiant sy'n cwmpasu sut y byddai staff yn delio â phlant ifanc iawn sydd heb oruchwyliaeth ar y safle, neu blant sy'n achosi problemau canfyddedig ar / o amgylch y safle. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn hefyd yn disgwyl, yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, bod ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth lawn o'r fantol uchaf a gwobrau'r gamblo sy'n cael ei ganiatáu mewn CAiD heb drwydded; nad oes gan yr ymgeisydd unrhyw euogfarnau perthnasol (y rhai sydd wedi'u nodi yn Atodlen 7 o'r Ddeddf); a bod staff wedi'u hyfforddi i gael dealltwriaeth lawn o'r fantol a'r gwobrau mwyaf.

3.2 (Alcohol) Safleoedd trwyddedig â Thrwyddedau Peiriant Gemau - (Atodlen 13 paragraff 4(1) Hawl awtomatig: 2 beiriant

Mae darpariaeth yn y Ddeddf ar gyfer safle â thrwydded i werthu alcohol i'w yfed ar y safle, y caiff 2 beiriant gemau categori C a/neu D yn awtomatig. Dim ond rhoi gwybod i'r awdurdod trwyddedu y bydd angen i'r safle wneud.

Gall yr Awdurdod Trwyddedu ddiddymu'r awdurdodiad awtomatig ar gyfer unrhyw safle os:

- Nad yw darparu'r peiriannau yn rhesymol unol â chyflawni'r amcanion trwyddedu;
- bod gemau wedi digwydd ar y safle sy'n torri amod Adran 282 y Ddeddf Gamblo (h.y. bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei roi i'r awdurdod trwyddedu, ffi wedi ei thalu ac y cydymffurfiwyd ag unrhyw god ymarfer perthnasol wedi ei gyflwyno gan y Comisiwn Gamblo am leoliad a gweithrediad y peiriant);
- Defnyddir y safle yn bennaf ar gyfer gamblo; neu
- Os yw trosedd dan y Ddeddf Gamblo wedi ei chyflawni ar y safle.

Trwydded: 3 neu fwy o beiriannau

Os yw safle'n dymuno cael mwy na dau beiriant, mae angen iddo wneud cais am drwydded a rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried y cais hwnnw ar sail yr amcanion trwyddedu, unrhyw ganllaw a gyflwynwyd gan y Comisiwn Gamblo dan Adran 25 Deddf Gamblo 2005 a "*materion sy'n berthnasol yn nhyb y Cyngor.*"

Ystyria'r Awdurdod Trwyddedu hwn y penderfynir ar y materion felly fesul achos, ond yn gyffredinol, ystyrir yr angen i ddiogelu plant a phobl sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan gemau a bydd disgwyl y bydd yr ymgeisydd yn bodloni'r Cyngor bod digon o fesurau i sicrhau na chaiff plant dan 18 fynd i'r ardal peiriannau gemau ar gyfer oedolion yn unig. Gall mesurau a fydd yn bodloni'r awdurdod na fydd mynediad, gynnwys rhoi'r peiriannau i oedolion o fewn golwg y bar neu o fewn golwg staff a fydd yn monitro'r peiriannau i sicrhau nad oes unrhyw un dan 18 yn eu defnyddio. Gall fod o fudd hefyd gosod hysbysiadau ac arwyddion. O ran diogelu pobl sy'n agored i niwed, gall ymgeiswyr ddewis ystyried darparu taflenni gwybodaeth/rhifau cymorth sefydliadau megis GamCare.

Cydnabyddir y gall rhai safleoedd a thrwydded alcohol wneud cais am drwydded safle ar gyfer eu hardaloedd lle nad oes trwydded alcohol. Mae'n debyg y byddai angen gwneud cais felly ac y byddai angen ei drin fel trwydded safle Canolfan Gemau i Oedolion.

Dylid nodi y gall yr Awdurdod Trwyddedu benderfynu caniatáu'r drwydded ond gyda llai o beiriannau a/neu beiriannau categori gwahanol i hyn oedd yn y cais. Ni ellir gosod amodau (ac eithrio'r rhai hynny).

Dylid nodi hefyd bod yn rhaid i ddeiliad trwydded gydymffurfio ag unrhyw Gof Ymarfer a gyflwyno'r Comisiwn Gamblo am leoliad a gweithrediad y peiriant.

3.3 Trwyddedau Gemau am Wobr

Mae Trwydded Gemau Gwobr yn drwydded a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod i awdurdodi darparu cyfleusterau ar gyfer gemau gyda gwobrau ar safle penodedig.

O ran mater Trwyddedau Gemau Gwobrau mae'r awdurdod yn bwriadu cyfyngu ar grant neu adnewyddu trwyddedau o'r fath i gaffis a bwytai neu westai gyda chyfleusterau bwytai lle darperir cyfleusterau eistedd i bobl gymryd lluniaeth o fwyd ar y safle a nifer y peiriannau i'w cyfyngu i un ym mhob safle oni bai bod y safle'n ffreutur staff pan fydd modd caniatáu dau beiriant.

Mae disgwyl i'r ymgeisydd nodi'r mathau o gamblo y bwriedir eu cynnig a dangos eu bod yn deall y terfynau i'r fantol a'r gwobrau a nodir mewn rheoliadau a bod y gemau yn cael eu cynnig o fewn y gyfraith.

Ni chaiff yr Awdurdod Trwyddedu roi amodau ar y math hwn o drwydded.

3.4 Trwyddedau Gemau mewn Clwb a Pheiriannau Clwb

Clybiau Aelodau a sefydliadau lles y Glowyr (ond nid clybiau Masnachol) wneud cais am Drwydded Gemau Clwb. Bydd y Drwydded Gemau Clwb yn caniatáu'r safle i gynnig peiriannau gemau (3 pheiriant yng nghategori B, C neu D), gemau cyfle cyfartal a gemau siawns.

Gall Clybiau Aelodau a sefydliadau lles y Glowyr – a hefyd Clybiau Masnachol – wneud cais am Drwydded Peiriant Clwb. Bydd y Drwydded Gemau Clwb yn caniatáu'r safle i gynnig peiriannau gemau (3 pheiriant yng nghategori B, C neu D), gemau cyfle cyfartal a gemau siawns. Ni chaiff Clybiau Masnachol gadw peiriannau gemau categori B3A sy'n cynnig gemau loteri yn eu clwb.

Rhaid cynnal y clwb "yn gyfan gwbl neu'n bennaf" at ddibenion eraill ond gamblo, ac eithrio os yw rheoliadau eraill yn caniatáu gamblo. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud rheoliadau ac mae'r rhain yn cynnwys clybiau bridge a chwist.

Mae Canllawiau'r Comisiwn hefyd yn nodi y caiff "awdurdodau trwyddedu ond gwrthod cais ar y sail:

- (a) Nid yw'r ymgeisydd yn bodloni'r gofynion ar gyfer clwb aelodau neu fasnachol neu sefydliad lles glowyr ac felly ni chaiff fath y drwydded y gwnaeth gais amdani;
- (b) Defnyddir safle'r ymgeisydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant a/neu bobl ifanc;
- (c) Mae'r ymgeisydd wedi troseddu dan y Ddeddf neu dorri amod trwydded wrth ddarparu cyfleusterau gemau;
- (d) Mae trwydded gan yr ymgeisydd wedi ei chanslo yn y degawd diwethaf; neu
- (e) Mae'r Comisiwn neu'r Heddlu wedi cofrestru gwrthwynebiad.

Mae 'gweithdrefn garlam' hefyd ar gael dan y Ddeddf ar gyfer safleoedd y mae ganddynt Dystysgrif Safle Clwb dan Ddeddf Drwyddedu 2003 (Atodiad 12, paragraff 10). Ni all clybiau masnachol feddu ar Dystysgrifau Safle Clwb o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac felly ni allant ddefnyddio'r weithdrefn garlam. Mae Canllaw'r Comisiwn Gamblo i'r Awdurdodau Trwyddedu'n nodi: "Dan y weithdrefn llwybr cyflym, nid oes cyfle i'r Comisiwn na'r heddlu gyflwyno gwrthwynebiadau ac nid oes cymaint o seiliau y gall awdurdod wrthod trwydded arnynt" a'r "Seiliau y gellid gwrthod cais am drwydded arnynt dan y broses yw:

- (a) Sefydlwyd y clwb yn bennaf ar gyfer gemau, yn wahanol i'r gemau a ganiateir dan atodiad 12;
- (b) Yn ogystal â'r gemau a ganiateir, bod yr ymgeisydd yn cynnig cyfleusterau ar gyfer gemau; neu
- (c) Bod trwydded clwb gemau neu drwydded peiriannau clwb a roddwyd i'r ymgeisydd yn y deng mlynedd diwethaf wedi ei chanslo."

Mae amodau statudol ar drwyddedau gemau clwb sy'n nodi na chaiff plentyn ddefnyddio peiriant categori B neu C ar y safle a bod yn rhaid i'r deiliad gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer am leoliad a gweithrediad y peiriannau gemau.

3.5 Hysbysiadau Defnydd Dros Dro

Mae Hysbysiadau Defnydd Dros Dro yn caniatáu defnyddio safle ar gyfer gamblo pan nad oes trwydded safle ond mae gweithredwr gamblo'n dymuno defnyddio'r safle dros dro i gynnig cyfleusterau gamblo. Byddai safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer Hysbysiadau Defnydd Dros Dro yn ôl y Comisiwn Gamblo'n cynnwys gwestai, canolfannau cynhadledd a lleoliadau chwaraeon.

Ni ellir ond rhoi Hysbysiad Defnydd Dros dro i berson neu gwmni y mae ganddynt drwydded weithredu berthnasol h.y. trwydded gweithredu casino nad yw o bellter.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i benderfynu pa fath o gamblo y gellir ei awdurdodi drwy Hysbysiadau Defnydd Dros Dro, ac ar adeg ysgrifennu'r Datganiad hwn, mae'r rheoliadau perthnasol (A1 rhif 3157: Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Hysbysiadau Defnydd Dros Dro) 2007) yn datgan mai dim ond i ganiatáu darparu cyfleusterau neu gemau cyfle cyfartal y gellir defnyddio Hysbysiadau Defnydd Dros Dro, lle bwriedir i'r gemau gynhyrchu un enillydd, sydd yn ymarferol yn golygu twrnameintiau pocer.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl gwrthwynebu hysbysiadau lle'r ymddengys y byddai'r effaith yn caniatáu gamblo rheolaidd mewn lle y gellid ei ddisgrifio fel set o safleoedd; fel yr argymhellir gan Ganllaw'r Comisiwn Gamblo i awdurdodau trwyddedu.

3.6 Hysbysiadau Defnydd Achlysurol

Ychydig iawn o ddisgresiwn sydd gan yr Awdurdod Trwyddedu o ran yr hysbysiadau hyn ac eithrio sicrhau y cedwir at y cyfyngiad amser statudol sef 8 diwrnod mewn blwyddyn galendr. Ond bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried diffiniad 'trac' a ph'un a ganiateir i'r ymgeisydd gael hysbysiad. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn hefyd yn sicrhau na fydd mwy nag 8 OUN yn cael eu cyhoeddi mewn un flwyddyn galendr mewn perthynas ag unrhyw leoliad.

3.7 Loteriau Cymdeithasau Bychain

Mae'r Ddeddf Gamblo 2005 yn nodi diffiniad o loteri, isod, ac yn dweud bod hyrwyddo neu hwyluso loteri yn anghyfreithlon ac eithrio os yw'n syrthio i un o ddau gategori loteri a ganiateir, sef:

- loteriau a thrwydded – loteriau cymdeithas fawr yw'r rhain a chynhelir y loteriau er budd awdurdodau lleol a reoleiddir gan y Comisiwn ac maent yn gofyn am drwyddedau gweithredu;
- loteriau a eithrir – mae pedwar math o loteri a eithrir a ganiateir yn benodol yn Atodlen 11 y Ddeddf, yn cynnwys loteriau cymdeithas fach.

Loteri yw unrhyw drefniant sy'n bodloni'r holl feini prawf sydd mewn disgrifiad statudol o naill ai loteri syml neu loteri gymhleth yn unol ag adran 14 y Ddeddf.

'Cymdeithas' yw'r gymdeithas neu unrhyw gangen ar wahân o gymdeithas felly yr hyrwyddir loteri ar ei rhan ac sydd wedi ei sefydlu fel sefydliad anfasnachol. Diffinia Adran 19 y Ddeddf gymdeithas fel cymdeithas os yw wedi ei sefydlu ac os cynhelir hi:

- at ddibenion elusennol yn ôl y diffiniad yn adran 2 Deddf Elusennau 2006;
- at ddibenion galluogi cyfranogiad mewn, neu gynorthwyo athletwyr chwaraeon mewn gweithgaredd diwylliannol;
- at unrhyw ddiben anfasnachol arall ac eithrio elw preifat.

rhaid i'r gymdeithas fod wedi ei sefydlu at un o'r dibenion a ganiateir fel y nodir yn adran 19 y Ddeddf a rhaid i elw unrhyw loteri fod at y dibenion hynny. Ni chaniateir sefydlu cymdeithas a'i hunig ddiben yw hwyluso loteriau.

Mae gan awdurdodau lleol hawl i weithredu eu loteriau eu hunain ond ni chânt wneud hynny ond gyda thrwydded gan y Comisiwn Gamblo. Rhaid i awdurdodau lleol roi o leiaf 20% o'r elw o loteri felly at ddiben y mae ganddynt hawl i fynd i wariant drosto a rhaid iddynt gydymffurfio â darpariaethau perthnasol eraill yn y Ddeddf. Mae'n bosibl y dymument gael trwydded gweithredu gamblo o bell, rhag ofn y dymument werthu tocynnau loteri trwy

ddulliau electronig neu dechnolegol eraill o bell megis dros y ffôn, e-bost neu drwy'r rhynggrwyd.

Rhaid i geisiadau ar gyfer cofrestru loteriau cymdeithas fechan fod ar y ffurf sy'n ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol a rhaid iddynt fod ynghyd â ffi gofrestru a chopi o'r telerau ac amodau a'r cyfansoddiad i brofi eu bod yn gymdeithas anfasnachol. Mae paragraffau 47 a 48 Atodlen 11 y Ddeddf yn nodi ym mha achosion y gall awdurdodau trwyddedu wrthod cais am gofrestru loteri cymdeithas fechan.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n mabwysiadu dull gweithredu ei gyfrifoldebau gorfodi ar sail risg ar gyfer loteriau cymdeithas fechan. Mae'r awdurdod yn ystyried y gallai'r rhestr ganlynol, ond nid hyn yn unig, effeithio ar statws risg y gweithredwr:

- cyflwyno ffurflenni'n hwyr (rhaid cyflwyno ffurflenni nid hwyrach na thri mis wedi dyddiad cyntaf tynnu'r loteri)
- cyflwyno ffurflenni anghyflawn neu anghywir
- torri amodau cyfyngiadau ar gyfer loteriau cymdeithas fach

Caniateir gemau anfasnachol os yw'n digwydd mewn digwyddiad anfasnachol naill ai fel gweithgaredd ar y cyd neu brif weithgaredd yn y digwyddiad. Mae digwyddiadau'n anfasnachol os nad yw unrhyw ran o'r elw at elw neu fudd preifat. Gall elw digwyddiadau felly fanteisio un neu ragor o unigolion os trefnir y gweithgaredd:

- gan neu ar ran elusen neu at ddibenion elusennol;
- i alluogi cyfranogiad mewn neu i gynorthwyo gweithgareddau chwaraeon, athletaidd neu ddiwylliannol.

Ni ddylai'r elw fod yn fwy na £20,000 ar gyfer un gêm gyfartal a rhaid i'r elw cyfanredol o lotri beidio â bod yn fwy na £250,000 mewn unrhyw flwyddyn.

Dylai elusennau a grwpiau cymunedol gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu hwn ar **029 20871651** neu **trwyddedu@caerdydd.gov.uk** i ofyn am gyngor pellach.

4. Gwneud Penderfyniadau

4.1 Gweinyddiaeth, Arfer a Dirprwyo Swyddogaethau

Gall y Pwyllgor Trwyddedu, Is-Bwyllgor neu un neu ragor o swyddogion dan awdurdod a ddirprwyir arfer pwerau a dyletswyddau'r Awdurdod Trwyddedu dan y Ddeddf.

Ystyrir y bydd nifer o'r swyddogaethau o natur weinyddol gan fwyaf heb unrhyw feysydd yn destun cynnen. Er mwyn bod yn effeithlon ac yn gost-effeithiol, swyddogion fydd yn cynnal y gweithgareddau hyn gan amlaf.

Mae amserlen dirprwyo swyddogaethau trwyddedu ynghlwm wrth Atodiad D. Serch hynny, gall yr Awdurdod Trwyddedu gyfeirio unrhyw fater at y Pwyllgor Trwyddedu neu'r Is-bwyllgor.

4.2 Y Weithdrefn Apelio

Ceir hawliau apelio ar gyfer partïon sy'n anffodlon ar benderfyniadau'r Awdurdod Trwyddedu yn Adrannau 206 i 209 Deddf 2005. Rhaid gwneud apeliadau i Lys yr Ynadon ar gyfer yr ardal y mae'r awdurdod trwyddedu a ystyriodd y cais ynnddi.

Mae'n rhaid cychwyn apêl trwy roi hysbysiad o'r apêl gan yr apelydd i; Llys Ynadon Caerdydd o fewn cyfnod o 21 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y hysbyswyd yr apelydd gan yr Awdurdod Trwyddedu o'r penderfyniad i apelio yn ei erbyn.

Wrth benderfynu ynghylch apêl, gall y Llys:

- Wrthod yr apêl;
- Newid y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn am unrhyw benderfyniad arall y gellir fod wedi ei wneud gan yr awdurdod trwyddedu;
- Ail anfon yr achos i'r awdurdod trwyddedu i weithredu'r apêl yn unol â chyfarwyddyd y Llys;
- Gwneud gorchymyn costau.

4.3 Rhoi Rhesymau dros Benderfyniadau

Wrth ragweld y fath apeliadau, bydd y Cyngor yn rhoi rhesymau cynhwysfawr dros ei benderfyniadau. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n trafod i ba raddau y gwnaed penderfyniadau yn unol ag unrhyw godau ymarfer a gyflwynodd y Comisiwn Gamblo, sy'n rhesymol unol â'r amcanion trwyddedu ac yn unol â'r Datganiad Polisi hwn.

4.4 Gweithredu Penderfyniad Llys yr Ynadon

Cyn gynted ag yr hysbysir penderfyniad Llys yr Ynadon wrth bob parti, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n oedi ei weithredu a chymerir camau angenrheidiol o hynny ymlaen ac eithrio os ceir gorchymyn i atal hynny gan lys uwch (er enghraifft oherwydd adolygiad barnwrol parhaus). Nid oes darpariaeth yn y Ddeddf ar gyfer unrhyw apêl arall yn groes i benderfyniad Llys yr Ynadon.

4.5 Cwynion yn erbyn Safle Trwyddedig

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ymchwilio'r cwynion yn erbyn y safle trwyddedig mewn perthynas â'r materion ynghylch yr amcanion trwyddedu y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt. Yn y lle cyntaf, anogir achwynwyr i wneud y gwyn yn uniongyrchol wrth ddeiliad y drwydded neu'r busnes perthnasol i geisio ateb lleol.

Os yw parti â diddordeb wedi gwneud un ai sylw dilys am safle trwyddedig neu gais am adolygu trwydded, gall yr Awdurdod Trwyddedu drefnu cyfarfod cymodi yn y lle cyntaf, i fynd i'r afael ag ac egluro'r materion sy'n peri pryder.

Ni fydd y broses hon yn gwrthwneud hawl unrhyw barti â diddordeb i ofyn i'r Is-Bwyllgor Trwyddedu a Gamblo ystyried ei wrthwynebiadau dilys, na hawl unrhyw ddeiliad trwydded i wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cymodi.

4.6 Adolygiadau

Gellir gwneud ceisiadau am adolygiad gan Bartïon â Diddordeb neu Awdurdodau â Chyfrifoldeb. Fodd bynnag, yr Awdurdod Trwyddedu fydd yn penderfynu a gynhelir adolygiad yn unol ag unrhyw godau ymarfer a gyflwynodd y Comisiwn Gamblo, sy'n rhesymol unol â'r amcanion trwyddedu ac yn unol â'r Datganiad Polisi hwn.

Bydd y cais am adolygiad hefyd yn destun ystyriaeth gan yr Awdurdod Trwyddedu o ran a fu'n wamal ynteu'n blagus neu na fydd yn peri i'r Awdurdod Trwyddedu hwn newid/diddymu/atal y drwydded neu a yw ar y cyfan yr un â sylwadau blaenorol neu geisiadau blaenorol am adolygiad.

Gall yr Awdurdod Trwyddedu hefyd gychwyn adolygiad trwydded safle benodol neu ddsbarth trwydded safle ar sail unrhyw reswm sy'n briodol yn ei dyb ef.

Wedi i'r Awdurdod Trwyddedu dderbyn cais dilys am adolygiad, gellir gwneud sylwadau gan awdurdodau â chyfrifoldeb a phartïon â diddordeb yn ystod cyfnod o 28 diwrnod. Mae'r cyfnod hwn yn cychwyn 7 diwrnod wedi i'r cais ddod i law'r Awdurdod Trwyddedu, a fydd yn cyhoeddi hysbysiad am y cais o fewn 7 diwrnod wedi'r dyddiad dod i law.

Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu gynnal yr adolygiad cyn gynted â phosibl wedi diwedd y cyfnod 28 diwrnod ar gyfer cyflwyno sylwadau.

Diben yr adolygiad fydd penderfynu a ddylai'r Awdurdod Trwyddedu gymryd unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â'r drwydded. Os oes cyfiawnhad i'r camau gweithredu, dyma'r opsiynau sydd ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu:-

- ychwanegu, diddymu neu addasu amod ar y drwydded gan yr Awdurdod Trwyddedu;
- eithrio amod uniongyrchol a osodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (e.e. oriau agor) neu ddiddymu neu addasu eithriad felly;
- oedi'r drwydded safle am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis; a
- diddymu'r drwydded safle.

Wrth benderfynu pa gamau gweithredu y dylid eu cymryd, os dylid cymryd unrhyw rai, yn dilyn adolygiad, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried yr egwyddorion yn Adran 153 y Ddeddf yn ogystal ag unrhyw sylwadau perthnasol.

Yn benodol, gall yr Awdurdod Trwyddedu hefyd gychwyn adolygiad ar drwydded safle ar y sail nad yw deiliad trwydded safle wedi darparu cyfleusterau gamblo yn y safle. Mae hyn er mwyn atal pobl rhag gwneud cais am drwyddedau mewn modd hapfasnachol heb fwriadu eu defnyddio.

Wedi cwblhau'r adolygiad, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu roi gwybod i'r canlynol am ei benderfyniad cyn gynted â phosibl:

- deiliad y drwydded;
- ymgeisydd yr adolygiad (os oes un);
- y Comisiwn;
- unrhyw berson sydd wedi gwneud sylwadau;
- prif swyddog yr heddlu neu'r prif gwnstabl; a
- Chomisiynwyr Cyllid a Thollau EM.

5. Amodau Trwyddedu a Cgodau Ymarfer (LCCP)

Mae Deddf Gamblo 2005 yn gofyn i'r Comisiwn Gamblo gyflwyno un neu ragor o'i godau ymarfer ynghylch y dull y darperir cyfleusterau ar gyfer gamblo. Gellid cyfeirio'r codau at ddeiliaid trwyddedau gweithredu neu bersonol, neu unrhyw berson arall sy'n ymwneud â darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan y Comisiwn Gamblo: www.gamblingcommission.gov.uk

Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i awdurdodau trwyddedu ystyried unrhyw god ymarfer perthnasol gan y Comisiwn dan adran 24 wrth arfer eu swyddogaethau, yn yr achos hwn:-

- *Amodau trwyddedu a chodau ymarfer* y Comisiwn, sy'n berthnasol i ddeiliaid trwyddedau gweithredu neu bersonol y Comisiwn Gamblo;
- Codau arall – codau arfer y Comisiwn yw'r rhain ar gyfer gemau siawns cydradd a'i god ymarfer ar gyfer peiriannau gemau mewn clybiau a safleoedd â thrwydded alcohol.

Mae'r LCCP yn cynnwys dau fath o ddarpariaeth cod:

5.1 Darpariaethau cod cyfrifoldeb cymdeithasol

Darpariaethau sy'n disgrifio trefniadau y dylid eu gwneud gan bersonau sy'n darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo ar y dibenion canlynol:-

- (a) sicrhau bod gamblo'n digwydd yn deg ac agored;
- (b) amddiffyn plant a phersonau eraill sy'n agored i niwed rhag eu niweidio neu ecsbloetio gan gamblo; a
- (c) rhoi cymorth ar gael i bersonau y gall problemau perthnasol i gamblo effeithio arnynt.

Mae cydymffurfio â'r rhain yn amod ar gyfer trwydded weithredu; felly os yw gweithredwr â thrwydded yn torri amod, gallai hyn arwain at y Comisiwn yn adolygu trwydded y gweithredwr gyda'r bwriad o atal, diddymu neu osod cosb ariannol a byddai hefyd yn gwneud y gweithredwr yn agored i'w erlyn.

5.2 Darpariaethau cod arferol

Nid oes gan y rhain statws amodau trwydded yn achos gweithredwyr heb drwydded ond maent yn nodi arfer dda; mae'r darpariaethau cod hyn yn y blychau heb gysgod yn y ddogfen hon.

Gellir cyflwyno codau ymarfer fel tystiolaeth mewn achosion llys troseddol neu sifil a rhaid eu hystyried mewn unrhyw achos y mae'r llys yn meddwl y maent yn berthnasol a gan y Comisiwn wrth arfer ei swyddogaethau; gallai'r Comisiwn ystyried unrhyw wyro oddi wrth ddarpariaethau'r cod gan weithredwr, er enghraifft ar adolygiad trwydded (ond ni allai arwain at osod dirwy ariannol).

Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi ei gwneud yn glir y gall gweithredwyr trwyddedig fabwysiadu dulliau gwahanol i'r rhai a nodir os ydynt wedi ystyried y ddarpariaeth ac y gallant ddangos bod dull gwahanol yn rhesymol yn yr amgylchiadau penodol; neu y byddai dull arall yn gweithredu mewn dull sy'n effeithiol yn yr un modd.

5.3 Aseidiadau Risg Safleoedd Gamblo

Mae'r LCCP yn gofyn bod yr holl ddeiliaid trwydded sy'n cynnig gamblo yn eu safle yn asesu'r risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu a bod ganddynt bolisiâu a gweithdrefnau a mesurau rheoli i leihau'r risgiau hynny. Rhaid i'r deiliaid trwydded ystyried unrhyw faterion perthnasol a nodir yn Natganiad Polisi (gamblo) yr awdurdodau trwyddedu wrth wneud eu hasesiadau risg.

Dylid cynnal asesiad risg lleol hefyd neu ei ddiweddarau gan ddeiliad trwydded wrth wneud cais ar gyfer:-

- Trwydded safle newydd;
- Wrth wneud cais am amrywio trwydded safle bresennol;
- Ystyried unrhyw newidiadau sylweddol lleol yn yr ardal leol;

- Os oes newidiadau sylweddol yn eu safle a allai effeithio ar yr asesiad risg lleol presennol.

Mae gofyn i weithredwyr roi asesiadau risg ar gael i awdurdodau trwyddedu pan wneir cais a dylid cadw copi yn yr adeilad neu fel arall ar gais, a bydd hyn yn rhan o weithdrefn archwilio neu ymchwilio cwynion yr Awdurdod Trwyddedu.

Mae angen asesiadau risg o'r fath gan ymgeiswyr newydd, ac o drwyddedeion safle presennol sy'n ceisio amrywio trwydded. Mae'r cod yn gofyn am bob gweithredydd o; Casino's, AGC's, Bingo Premises, CAiDau, siopau betio a chyfryngwyr betio o bell i asesu risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu, a chael polisiau, gweithdrefnau a mesurau rheoli ar waith i liniaru'r risgiau hynny.

Mae'n ofynnol i weithredwyr gael eu gwneud gan y cod SR i sicrhau bod yr asesiad risg ar gael i awdurdodau trwyddedu pan fydd cais yn cael ei gyflwyno naill ai ar gyfer Trwydded Safle newydd neu amrywio Trwydded Safle, neu fel arall ar gais, a bydd hyn yn rhan o drefn arolygu'r Awdurdod Trwyddedu a gellir gofyn amdano pan fydd swyddogion yn ymchwilio i gwynion.

Mae'r cod yn gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu nodi materion y mae'n disgwyl i'r gweithredwr eu hystyried yn yr asesiad risg yn ei ddatganiad polisi ac mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i'r gweithredwyr ystyried y materion canlynol wrth gynnal eu hasesiadau risg.

- Gwybodaeth sydd gan y trwyddedai ynghylch hunan-eithrio a digwyddiadau o gamblo dan oed;
- Trefniant am gyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-eithrio a thueddiadau gemau;
- Lleoliadau trefol, megis agosrwydd at ysgolion, amgylchedd masnachol, ffactorau sy'n effeithio ar nifer yr ymwelwyr;
- agosrwydd at lety neu ganolfannau sy'n darparu ar gyfer pobl fregus, gan gynnwys rhai sy'n gaeth i gamblo/alcohol/cyffuriau
- Ystod y cyfleusterau sy'n agos at y safleoedd â thrwydded, megis llefydd gamblo eraill, banciau, swyddfeydd y post, cyfleusterau lluniaeth ac adloniant;
- Problemau sy'n hysbys yn yr ardal, megis problemau sy'n codi oherwydd yfwyr ar y stryd, pobl ifanc yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol, gweithgareddau delio cyffuriau a.y.b.
- Materion sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y canlynol:
- Sefydliadau, llefydd neu ardaloedd lle dylid disgwyl i bant neu bobl ifanc fod, megis ysgolion, clybiau ieuenctid, parciau, mannau chwarae a lleoliadau adloniant megis llefydd bowlio, sinemâu a.y.b.
- Unrhyw safle lle bydd plant yn ymgynnull, yn cynnwys safleoedd bws, caffis, siopau ac unrhyw le arall sy'n denu plant.
- Ardaloedd lle mae pobl ifanc yn dueddol o ymddwyn yn wrthgymdeithasol, yn cynnwys gweithgareddau megis graffiti/tagio, yfed dan oed a.y.b.
- Digwyddiadau a gofnodwyd lle bu ceisio gamblo dan oed.

Materion sy'n berthnasol i oedolion sy'n agored i niwed, yn cynnwys:

- Gwybodaeth sydd gan y trwyddedai ynghylch hunan-eithrio a digwyddiadau o gamblo dan oed;
- Tueddiadau gamblo sydd o bosibl yn adlewyrchu taliadau ariannol megis diwrnodau talu neu daliadau budd-daliadau.
- Trefniant am gyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-eithrio a thueddiadau gemau;
- Agosrwydd safleoedd y gallai pobl sy'n agored i niwed eu mynychu, megis ysbytai, cartrefi gofal preswyl, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd, swyddfeydd tai'r cyngor, clinigau caethiwed i sylweddau neu ganolfannau cymorth, llefydd y gall pobl sy'n gaeth i alcohol neu gyffuriau ymgynnull a.y.b.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac maent yn awgrymiadau'n unig a allai gael eu hystyried gan weithredwyr sy'n ymgymryd â'u hasesiad risg eu hunain.

Safleoedd Traciau Betio – Mae'r Comisiwn Gamblo yn datgan, o fewn ei god LCCP, ei bod yn ofynnol i Weithredwyr wneud asesiad risg. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i Safleoedd Traciau Betio geisio Trwydded Gweithredwr gyda'r Comisiwn Gamblo ac, fel y cyfryw, nid yw'n ofynnol iddynt gynnal asesiad risg. Fodd bynnag, er budd amcanion Deddf Gamblo 2003, sef i) atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi troseddu; ii) sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored; iii) amddiffyn plant a phobl eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan gamblo, byddai'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i Safle Trac Betio gynnal asesiad risg ar gyfer eu safle.

5.4 Newidiadau sylweddol i'r safle

O bryd i'w gilydd, bydd gweithredwyr yn adnewyddu cynllun ac addurniad y safle, sy'n annhebygol o arwain at adolygiad ar yr asesiad risg ar gyfer y safle hwnnw. Fodd bynnag, os oes newid sylweddol yn yr eiddo a allai effeithio ar liniaru risgiau lleol, bydd rhaid i weithredwr adolygu ei asesiad risg a'i ddiweddarau os oes angen, gan ystyried y newid a sut y gallai effeithio ar un neu ragor o'r amcanion trwyddedu.

Disgwylir y bydd gweithredwyr gamblo yn cynnal yr asesiad risg fel mater o broses ar gyfer unrhyw ail-ffitio, newid cynllun neu fesurau rheoli mewnol. Os yw unrhyw newidiadau'n gofyn am adolygu'r asesiadau risg ar gyfer yr eiddo hwnnw, dylai gweithredwyr gamblo sicrhau bod ganddynt system i gofnodi a gweithredu unrhyw fesuriadau a bennir yn yr adolygiad hwnnw

Y gweithredwr gamblo fydd yn gyfrifol am adnabod pryd bydd newid sylweddol i'r safle wedi digwydd. Er mwyn helpu gweithredwyr gamblo, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi rhoi'r rhestr ganlynol o enghreifftiau y gellir eu hystyried yn newid sylweddol i'r adeilad (gallai rhai ohonynt ofyn am amrywio'r drwydded safle bresennol).

- Unrhyw waith adeiladu neu ail ffitio safle lle adleolir cyfleusterau gamblo yn y safle.
- Trosglwyddo'r drwydded eiddo i weithredwr newydd a fydd yn gweithredu'r safle gyda'i weithdrefnau a pholisïau ei hun, sy'n wahanol i rai'r trwyddedai blaenorol.
- Unrhyw newid i bolisïau mewnol gweithredwr sydd, o ganlyniad yn gofyn am fesurau rheoli ychwanegol neu newid y rhai presennol; a/neu ail-hyfforddi staff ar y newidiadau polisi hyn.
- Newid mynedfa neu fynedfeydd i'r safle, er enghraifft os newidir deunydd y drysau o fetel â gwydr i ddrysau gwydr llawn neu os newidir drysau o agor am allan i agos am i mewn neu'r ffordd groes.
- Rhoddir cyfleusterau gamblo newydd ar gael ar y safle, na chafwyd o'r blaen, er enghraifft, betio wrth chwarae, dyfeisiau llaw ar gyfer cwsmeriaid, Pwyntiau Betio Hunan Wasanaeth neu os cynigir categori peiriannau gemau gwahanol.
- Mae'r gweithredwr safle'n gwneud cais am drwydded yn y safle i gael cynnig gweithgaredd dan weithdrefn rheoliadol wahanol, er enghraifft er mwyn caniatáu gwerthu alcohol.

Fel yn yr enghreifftiau o newid sylweddol mewn amgylchiadau lleol, nid yw'r rhestr uchod yn rhestr derfynol o'r newidiadau sylweddol i'r safle.

Ni fydd yr Awdurdod Trwydded, fel arfer cyffredinol, yn gofyn am gopi o'r asesiad risg a adolygwyd os bu newid sylweddol i'r adeilad â thrwydded, ac eithrio os yw'r newid yn un a fyddai'n gofyn am gais am amrywiad.

5.5 Amrywio'r drwydded safle

Dim ond y rhai sy'n ofynnol dan adran 187 y Ddeddf yw'r amrywiadau i drwyddedau safle ac ni fyddant yn cynnwys newidiadau amgylchiadau megis newid enw safle neu newid cyfeiriad trwyddedau a.y.b.

Mae darpariaeth cod cyfrifoldeb cymdeithasol LCCP y Comisiwn 10.1.1 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gamblo adolygu'r asesiad risg lleol a'i ddiweddarau os oes angen wrth baratoi cais i amrywio'r drwydded safle. Gallai gweithredwyr sy'n gwneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu am amrywio ystyried cyflwyno copi o'r asesiad risg lleol a adolygwyd wrth gyflwyno'r cais. Bydd hyn felly'n negyddu'r angen am i Awdurdod Trwyddedu wneud cais i weld copi o'r asesiad risg a gallai leihau'r tebygrwydd o wneud sylwadau ar gais.

Os yw gweithredwr yn dymuno amrywio trwydded safle casino wedi ei drosi o un safle i un arall, dylai'r gweithredwr gamblo ystyried cynhyrchu asesiad risg newydd ar gyfer y safle hwnnw. Cyngorir cyflwyno copi o'r asesiad hwnnw i'r Awdurdod Trwyddedu gyda'r ffurflen gais.

5.6 Adolygiad rheolaidd ar yr asesiad risg

Fel mater o arfer gorau, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n argymhell bod gweithredwyr yn sefydlu gweithdrefn adolygu rheolaidd o ran eu hasesiadau risg lleol. Gellir cynnal y rhaglen adolygu hon ar y cyd ag adolygiadau eraill ar asesiadau risg lechyd a Diogelwch ar gyfer y safle. Byddai'r rhaglen adolygu hon yn sicrhau bod, yr asesiadau risg hyn yn cael eu hystyried yn rheolaidd a'u diweddarau os oes angen, waeth p'un ai a yw un o'r digwyddiadau sbardun a restrir uchod wedi digwydd ai peidio.

Penderfyniad y gweithredwr gamblo fydd pa mor aml y cynhelir yr adolygiadau hyn ond argymhellir na ddylai mwy na thair blynedd fynd heibio cyn adolygu'r asesiadau hyn. Mae'n bosibl y dymuna gweithredwyr gynnal eu hadolygiadau ar yr asesiadau risg lleol ar y cyd â chyhoeddi Datganiad Egwyddorion Trwyddedu'r Cyngor ar gyfer Gamblo. Byddai hyn yn galluogi'r gweithredwyr gamblo i ystyried y Proffil Ardal Leol, sydd wedi ei gyhoeddi yn Natganiad Egwyddorion Trwyddedu'r Cyngor ar gyfer Gamblo.

5.7 Risgiau lleol a mesurau rheoli

Mae dwy ran benodol i'r broses asesu risg:

- asesiad risgiau lleol;
- pennu dull lliniaru priodol i ostwng y risgiau hynny;

Mae'r risgiau y mae'n rhaid i weithredwyr eu pennu fod yn berthnasol i'r effaith bosibl y gallai safle gamblo ei chael ar yr amcanion trwyddedu. Dylai gweithredwr gamblo nodi a rhestru'r holl risgiau lleol sydd y maent wedi eu nodi yn yr asesiad. Gall lefel risgiau felly amrywio o fod yn isel iawn i uchel iawn yn dibynnu ar yr effaith bosibl y mae'r gweithredwr gamblo wedi asesu a fydd ar yr amcanion trwyddedu. Caiff lefel unrhyw risg effaith uniongyrchol ar fath a graddau'r mesurau rheoli y mae'r gweithredwyr gamblo yn eu hystyried yn angenrheidiol i liniaru'r fath risg.

Bydd gweithredwyr eisoes yn asesu lleoliadau wrth chwilio am safleoedd newydd neu wrth adolygu perfformiad eu safle. Caiff dyluniad safle hefyd ei asesu i sicrhau ei fod yn ateb anghenion gweithredu gamblo, yn rhoi diogelwch i staff a chwsmeriaid ac yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer cofnodi troseddau. Bydd gweithredwyr hefyd wedi gweithredu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer gweithredu safle un unol â'r gofynion statudol a rheoliadol eraill sydd arnynt gan y Comisiwn ac asiantaethau eraill.

Bydd gweithredwyr eisoes yn gyfarwydd ag adnabod risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a deddfwriaeth hylendid bwyd. Defnyddir asesiadau risg hefyd at ddibenion diogelwch a throsedd, er enghraifft ar gyfer gwyngalchu arian fel rhan o ymarfer gorau cymdeithas fasnach, megis y gynghrair betio diogel.

Mae'r broses asesu risg leol, er ei bod yn debyg, yn gofyn am ystod o ystyriaethau sy'n llawer ehangach wrth adnabod risg lleol. Gofyniad darpariaeth cod cyfrifoldeb cymdeithasol LCCP y Comisiwn yw bod gweithredwyr gamblo'n ystyried yr ardal leol y mae'r safle ynnddi ac effaith

gweithredu'r safle ar yr amcanion trwyddedu.

5.8 Risgiau ardal leol

Mae nifer o ffactorau sy'n berthnasol i'r ardal leol y gall gweithredwyr ystyried sy'n annibynnol ar bwy mae'r gweithredwr yn credu yw ei farchnad darged. Cyfrifoldeb y gweithredwr gamblo fydd adnabod y risgiau hyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd achlysuron lle mae'r Comisiwn neu'r Awdurdod Trwyddedu yn cynnig gwybodaeth ynghylch yr hyn maent yn ystyried yn risg lleol. Gellid manylu hyn yn y Datganiad Polisi Trwyddedu neu mewn dogfen ganllaw ar wahân, y mae'r ddwy ddogfen ar wefan y Cyngor.

Bydd yr ardal leol yn wahanol y dibynnu ar y safle a maint ei weithrediad. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd gan neuadd Bingo ddalgylch ehangach na siop fetio cymdogaeth oherwydd bod y neuadd Bingo'n denu cwsmeriaid o ymhellach.

5.9 Risgiau gweithredu gamblo

Mae'r gweithredu gamblo'n berthnasol i sut caiff y safle ei redeg. Bydd hyn yn cynnwys polisiâu a gweithdrefnau'r gweithredwr, sydd wedi eu gosod i gwrdd ag anghenion y busnes, y Ddeddf a/neu ddarpariaethau cod penodol yn yr LCCP.

Dylai gweithredwyr gamblo adnabod risgiau gweithrediadol yn yr ardal leol i'r amcanion trwyddedu ac yna dylent ystyried a oes mesurau rheoli sy'n ychwanegol i'r rhai sydd eisoes ar waith a allai liniaru'r risg. Er enghraifft os yw'n hysbys y defnyddir cyffuriau anghyfreithlon yn yr ardal leol, mae'n bosibl y bydd y gweithredwr gamblo'n ystyried defnyddio mesurau rheoli megis clo magnet ar y drysau tai bach neu newid dyluniad y tai bach i ddarbwylllo pobl rhag defnyddio cyffuriau yno.

Mae'n debygol bod adnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r elfen hon yn yr asesiad yn debyg iawn ar gyfer pob safle gydag amrywiadau bychain yn dibynnu ar unrhyw ffactorau penodol sy'n berthnasol i'r safle neu'r ardal leol.

Bydd y mesurau rheoli y bydd gweithredwyr yn eu gosod i liniaru unrhyw risg sy'n gysylltiedig â gamblo'n dibynnu ar fath y gweithgareddau gamblo a ddarperir, sut mae'r cwmni'n gweithredu a maint y sefydliad.

5.10 Risgiau cynlluniau adeilad

Mae dyluniad y safle yn ffactor hynod bwysig wrth ystyried risgiau lleol. Er enghraifft, gall Canolfan Gamblo i Oedolion sydd mewn ardal lle mae nifer fawr o blant a phobl ifanc trwy'r dydd nodi bod plant lleol yn defnyddio'r drysau'r naill ochr i'r safle i fynd i'r stryd gyfagos yn gynt. Y cam lliniaru priodol yn yr achos hwn fyddai i'r gweithredwr gamblo gau un o'r drysau er mwyn atal defnyddio'r safle fel llwybr byr.

Fel rhan o'r broses ddylunio, mae cynllun y safle yn brif ystyriaeth oherwydd y gall dyluniad wedi ei wneud yn wael beri risgiau sylweddol i un neu ragor o'r amcanion trwyddedu. Mae gan weithredwyr gamblo brofiad mewn cynllunio safle ac yn aml gwneir yr ystyriaethau hyn yn ystod y cam cynllunio. Cynghorir i weithredwyr gamblo sicrhau bod proses i gofnodir penderfyniadau allweddol hyn yn fuan yn y broses gynllunio ar gyfer y dyluniad safle er mwyn gallu cynnwys hyn yn yr asesiad risg.

5.11 Risgiau cynllun mewnol

Bydd y dyluniad a chynllun mewnol yn cynrychioli gweithrediad y safle a math y cyfleusterau gamblo mae'n eu cynnig. I rai safleoedd, bydd y cynllun yn destun cyfyngiadau oherwydd amodau gofodol ar drwydded safle gamblo, megis y pellter rhwng byrddau gamblo a chyfleusterau gamblo eraill mewn casinos a'r cyfyngiadau ar leoliadau peiriannau codi arian.

Dylai gweithredwyr asesu'r risg a berir gan gynllun mewnol y safle a lleoliad y cyfleusterau gamblo y tu mewn iddynt. Er enghraifft, os lleolir peiriant gamblo o fewn golwg uniongyrchol o gownter yr ariannwr, bydd modd i staff fonitro ymddygiad y chwaraewyr ac ymyrryd os oes pryder ynghylch tueddiadau gwario cwsmeriaid. Gall staff hefyd fonitro pwy sy'n defnyddio'r peiriannau a gallant herio unrhyw gwsmeriaid y credant sydd dan 18 oed, neu a allai ddifrodi'r peiriannau neu a allai geisio gwyngalchu arian. Trwy asesiad syml o'r lleoliad gorau ar gyfer y peiriannau hyn, gal gweithredwyr leihau'r risg i'r amcanion trwyddedu yn sylweddol.

5.12 Risgiau cynllun allanol

Bydd ochr allan y safle yn hysbyseb fawr i'r gweithredwr gamblo. Fodd bynnag, dylid asesu'r dyluniad ar ail y risgiau cysylltiedig. Gall gweithredwyr nodi risg sy'n gysylltiedig â'r dyluniad a chyflwyno mesurau rheoli ar sail y risg hwnnw. Er enghraifft, os oes wyneb gwydr i ran maer o'r safle mewn ardal sy'n dueddol o brofi difrod troseddol, gall gweithredwyr ystyried bod y risg o ddifrodi'r gwydr cadarn arferol yn uchel a chyflwyno mesur rheoli megis llenni metel a/neu gamerâu cylch cyfyng.

5.13 Mesurau Rheoli

Yn dibynnu ar natur y ffactorau risg, gall y mesurau rheoli a nodir a fyddai'n lliniaru risg a ganfyddir fod yn gyfuniad o systemau, dyluniad a mesurau corfforol. Gall mesurau rheoli sy'n berthnasol i systemau fod yn fesurau sydd wedi eu gosod trwy bolisiau a gweithdrefnau. Gall y rhain fod naill ai yn systemau sy'n berthnasol i safle cyfan y gweithredwr neu systemau sydd wedi eu datblygu'n benodol er mwyn i safle penodol drin ffactor risg lleol penodol. Gallai mesurau rheoli system gynnwys hyfforddi staff, polisiau a gweithdrefnau diogelu. Gallant hefyd gynnwys rhoi personél diogelwch wrth fynedfaoedd, gweithredu meini prawf aelodaeth a/neu roi cymorth i grwpiau lleol o bobl sy'n agored i niwed trwy ddulliau ariannol neu eraill.

Mesurau sydd wedi eu hadeiladu yn rhan o ddyluniad safle yw mesurau rheoli dyluniad. Gall y rhain gynnwys lleoliad y cyfleusterau gamblo a dyluniad a lleoliad y cownteri arian yn y safle a chynllun allanol y safle. Er enghraifft, gallai mesur rheoli ar gyfer tu mewn safle gynnwys symud cownter arian o gefn y safle i flaen y siop y drws nesaf i'r brif fynedfa. Gallai mesur rheoli dyluniad allanol gynnwyd teilwra'r dyluniad allanol i fynd i'r afael â risgiau lleol, rhagor o ffenestri i staff allu gweld y tu allan i'r safle a dyluniad sy'n osgoi denu plant i'r safle.

Mae'r mesurau rheoli terfynol yn berthnasol i'r mesur corfforol a fydd yn mynd i'r afael â ffactor risg a adnabyddir. Gall y mesurau rheoli corfforol hyn gynnwys, er enghraifft, larymau, camerâu cylch cyfyng, drysau, cloeau magnet, cloeau amser ar goffrau, prawf poer, caedau ffenestr, systemau mwg, golau uwch fioled yn y tai bach.

Gall y mesurau rheoli a nodir a fyddai'n lliniaru risg a ganfyddir fod yn gyfuniad o systemau, dyluniad a mesurau corfforol. Er enghraifft, i fynd i'r afael â'r ffactorau risg sy'n berthnasol i blant yn cael mynediad i safle gamblo i bobl dros 18 oed yn unig, gallai'r gweithredwr nodi'r mesurau canlynol:

Systemau: Cerdyn PASS neu bolisiau dilysu oedran, cynllun her 21, hyfforddiant staff a staff drws.

Dylunio: Dyluniad allanol na fydd yn denu plant i'r safle, cynllun y fynedfa a fydd yn galluogi staff a'r staff diogelwch i wylïo'r rhai sy'n dod i mewn i'r safle a'u herio ar sail oedran.

Corfforol: Cloeau drysau magnet a sganio cardiaid adnabod

Cam 1: Gwneud Asesiad Risg Lleol

Dylid cynnal yr asesiad risg gam wrth gam. Gall gweithredwyr gamblo asesu'r ardal leol yn gyntaf a nodi'r ffactorau risg perthnasol, yna asesu'r gweithrediad gamblo ac yn olaf asesu'r dyluniad safle, mewnol ac allanol. Wedi adnabod y ffactorau risg hyn, dylid ystyried y mesurau rheoli i liniaru'r risgiau. Bydd y mesurau rheoli naill ai yn weithredol eisoes neu bydd angen eu gweithredu.

- Dylai aseswyr gychwyn trwy adnabod y ffactorau risg lleol o amgylch y safle. Bydd y ffactorau risg yn amrywio o leoliad i leoliad felly mae'n bwysig deall nodweddion penodol yr ardal leol a'r bobl sy'n byw, gweithio neu'n ymweld â hi. Bydd o fudd defnyddio proffil lles y gymuned a gwybodaeth leol.

Cam 2: Gweithredu gamblo a chynllun corfforol

Wrth asesu'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â gweithrediad gamblo, dylai'r asesydd ystyried y risgiau lleol a dderbynnir yn gyffredin gan randdeiliaid ehangach a sut y gall y gweithrediad gamblo effeithio ar y risg hwn.

Mae dyluniad corfforol y safle yn ystyriaeth allweddol oherwydd y gall hyn effeithio'n fawr ar y risg i'r amcanion trwyddedu. Wrth asesu'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â'r dyluniad safle a'r cynllun, mae angen cyfeirio at ffactorau risg yr ardal leol a adnabuwyd eisoes i sicrhau nad

yw'r dyluniad yn ychwanegu at y risg hwnnw. Dylid ystyried y dyluniad, mewnol ac allanol ac adnabod a nodi'r ffactorau risg penodol.

Cam 3: Mesurau rheoli

Wedi adnabod y ffactorau risg hyn, dylai'r asesydd geisio adnabod y mesurau rheoli a fyddai'n lliniaru'r risgiau a ganfuwyd. Bydd mesurau rheoli felly'n berthnasol i un o dri chategori mesurau rheoli a grybwyllwyd uchod (systemau, dyluniad a chorfforol). Gallai rhai ffactora risg ofyn am gyfuniad o fesurau rheoli i liniaru'r risg yn briodol.

Cam 4: Cynllun Gweithredu

Wedi gwneud yr asesiad, dylid cwblhau cynllun gweithredu er mwyn dogfennu unrhyw gamau a ganfuwyd a gosod a chytuno ar ddyddiad terfynol er mwyn cwblhau darn o waith.

Asesiad wedi ei gwblhau

Rhaid gweithredu'r mesurau rheoli ar y safle ac, os yw'n berthnasol, dylid hyfforddi staff ar y safle ar gyfer defnyddio'r polisi neu'r weithdrefn bresennol neu newydd. Mae'n rhaid cadw dogfennau'r asesiad a dylid eu hadolygu pan fo sbardun neu fel rhan o weithdrefn adolygu rheolaidd.

6. Gwybodaeth Ychwanegol

Ceir rhagor o wybodaeth am Ddeddf Gamblo 2005, y Datganiad Polisi Trwyddedu hwn neu'r broses ymgeisio gan:

Adran Drwyddedu
Cyngor Caerdydd
Neuadd y Ddinas
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3ND
Ffôn: 029 20871651
E-bost: trwyddedu@caerdydd.gov.uk
Gwefan:- www.caerdydd.gov.uk

Ceir gwybodaeth hefyd gan:

The Gambling Commission
Victoria Square House
Birmingham
B2 4BP

Ffôn: 0121 230 6666

E-bost: info@gamblingcommission.gov.uk

Gwefan: www.gamblingcommission.gov.uk

The Department for Culture, Media and Sport

100 Parliament Street

Llundain


SW1A 2NP

Ffôn: 020 7211 6200

Gwefan: www.culture.gov.uk

7. Atodiadau

Atodiad A: Map Caerdydd



1. Adamsdown

2. Butetown

3. Caerau

4. Treganna

5. Cathays

6. Creigiau a Sain Ffagan

7. Cyncoed

8. Trelái

9. Y Tyllgoed

10. Gabalfa

11. Grangetown

12. Y Mynydd Bychan

- 13. Llys-faen
- 14. Llandaf
- 15. Ystum Taf

- 16. Llanisien
- 17. Llanrhymini
- 18. Pentwyn
- 19. Pentyrch
- 20. Pen-y-lan

- 21. Plasnewydd
- 22. Pontprennau a Phentref Llanelirwg
- 23. Radur a Phentre-poeth
- 24. Rhiwbeina
- 25. Glan-yr-afon
- 26. Tredelerch
- 27. Y Sblot
- 28. Trowbridge
- 29. Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais

Atodiad B - Awdurdodau Cyfrifol : Manylion Cyswllt

Anogir ymgynghori â'r holl Awdurdodau Cyfrifol cyn cyflwyno'r cais. Lle cyflwynwyd copiâu o geisiadau i Brif Swyddog yr Heddlu a/neu'r Awdurdodau Cyfrifol yn dibynnu ar math y cais am drwydded dylid defnyddio'r cyfeiriadau canlynol:

<p>Rheolwr Tîm (Trwyddedu) Trwyddedu Cyngor Caerdydd Neuadd y Ddinas Caerdydd CF10 3ND 029 20871651 trwyddedu@caerdydd.gov.uk</p>	<p>Prif Swyddog yr Heddlu Heddlu De Cymru Adran Drwyddedu Gorsaf Heddlu Bae Caerdydd, Uned Reoli Sylfaenol y Dwyrain James Street Caerdydd CF10 5EW SWPCardiffLicensing@south-wales.pnn.police.uk</p>
<p>The Gambling Commission Victoria Square House Victoria Square, Birmingham. B2 4BP 0121 230 6500</p>	<p>Y Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru Parc Busnes Forest View Llantrisant, Pont-y-clun CF72 8LX 01443 232000 Safety-south@southwales-fire.gov.uk</p>
<p>Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cymdogaeth Rheoli Llygredd Cyngor Caerdydd Neuadd y Ddinas, Caerdydd. CF10 3ND 029 20871856 neu 20871675 pollution-cardiff-srs-wales@valeofglamorgan.gov.uk</p>	<p>Y Rheolwr Gweithredol Rheoli Datblygiadau Cyngor Caerdydd Neuadd y Sir, Caerdydd. CF10 4UW 029 20871135 datblygu@caerdydd.gov.uk</p>

<p>Y Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Plant Uned Amddiffyn Plant Canolfan Deulu Trowbridge Heol Greenway Trowbridge Caerdydd CF3 1QS 029 20774642 diogeluplant@caerdydd.gov.uk</p>	<p>Cyllid a Thollau ei Fawrhydi Tîm Prosesu Tollau Dyletswyddau Gamblo BX9 1GL Y DU Nrubetting&gaming@hmrc.gsi.gov.uk 0300 200 3700</p>
<p>Y Rheolwr Gweithredol (Gwasanaethau Masnachol) (Iechyd a Diogelwch) Cyngor Caerdydd Neuadd y Ddinas Caerdydd. CF10 3ND 029 2087 2054 Gorfodiiechydadiogelwch@caerdydd.gov.uk (safle lle mae iechyd a diogelwch yn cael ei orfodi gan Gyngor Caerdydd)</p>	<p>Rheolwr Gweithredol Asiantaeth Gweithredol Y Gweithgor Iechyd a Diogelwch Adeiladau'r Llywodraeth Ty Glas, Llanisien Caerdydd. CF14 5SH 029 20263000 (Safleoedd lle gorfodir iechyd a diogelwch gan yr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch)</p>

Atodiad C - Rhestr o sefydliadau a ymgynghorwyd yn uniongyrchol

- Prif Swyddog yr Heddlu;
- Yr Awdurdod Tân;
- Cynrychiolwyr deiliaid yr amryw drwyddedau ar gyfer eiddo yn y Sir y bydd y Polisi hwn yn effeithio arnynt;
- Cyrff yn cynrychioli busnesau a phreswylwyr yng Nghaerdydd;
- Adrannau â diddordeb yn nhrwyddedu gamblo (yn cynnwys yr Awdurdodau Cyfrifol);
- Bwrdd Diogelu Plant Lleol;
- Aelodau Etholedig
- Cynghorau Cymuned;
- Sefydliadau eraill yr ymddengys y mae'r materion trwyddedau sydd yn y Datganiad hwn yn effeithio arnynt;
- Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi.
- Bwrdd Iechyd Lleol

Atodiad D - Atodlen Dirprwyo Swyddogaethau Trwyddedu a'r penderfyniadau

Materion i'w trin	Cyngor Llawn	Yr Is-bwyllgor Trwyddedu	Swyddogion
Polisi Gamblo Tair Blynedd	x		
Polisi i beidio â chaniatáu casinos	x		
Gosod Ffioedd – pan fo'n briodol (Dirprwyir Gosod Ffioedd ar gyfer		x	

Trwydded Safle i'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio,			
Cais am Drwydded Safle		Os yw sylwadau wedi dod i law a heb eu diddymu	Lle nad oes sylwadau a dderbyniwyd/sylwadau wedi'u tynnu'n ôl/awdurdodedig i ddsbarthu gyda gwrandawriad os yw pob plaid yn gytûn/awdurdodedig i asesu a yw cynrychiolaeth yn ddilys.
Cais am amrywio trwydded		Os yw sylwadau wedi dod i law a heb eu diddymu	Lle nad oes sylwadau a dderbyniwyd/sylwadau wedi'u tynnu'n ôl/awdurdodedig i ddsbarthu gyda gwrandawriad os yw pob plaid yn gytûn/awdurdodedig i asesu a yw cynrychiolaeth yn ddilys.
Cais am drosglwyddo trwydded		Os yw sylwadau gan y Comisiwn wedi dod i law	Os na ddaeth sylwadau gan y Comisiwn i law
Cais am ddatganiad dros dro		Os yw sylwadau wedi dod i law a heb eu diddymu	Lle nad oes sylwadau a dderbyniwyd/sylwadau wedi'u tynnu'n ôl/awdurdodedig i ddsbarthu gyda gwrandawriad os yw pob plaid yn gytûn/awdurdodedig i asesu a yw cynrychiolaeth yn ddilys.
Adolygiad ar Drwydded Safle		x	
Diddymu trwydded safle am beidio â thalu ffi drwydded flynyddol			x
Cais am Drwyddedau Gemau		Os yw sylwadau wedi eu gwneud (a heb eu	Lle nad oes sylwadau a dderbyniwyd/sylwadau

Clwb/Peiriannau Clwb		diddymu)	wedi'u tynnu'n ôl/awdurdodedig i ddisbarthu gyda gwrandawriad os yw pob plaid yn gytûn/awdurdodedig i asesu a yw cynrychiolaeth yn ddilys.
Canslo trwyddedau Gemau Clwb/Peiriannau Clwb		x	
Ceisiadau am drwyddedau eraill		Os yw sylwadau wedi eu gwneud a heb eu diddymu	Lle nad oes sylwadau a dderbyniwyd/sylwadau wedi'u tynnu'n ôl/awdurdodedig i ddisbarthu gyda gwrandawriad os yw pob plaid yn gytûn/awdurdodedig i asesu a yw cynrychiolaeth yn ddilys.
Canslo trwyddedau peiriannau Gemau safleoedd trwyddedig		x	Awdurdodwyd i ganslo trwydded, gyda'r deiliad yn cael yr hawl i wrandawriad yn yr Is-bwyllgor.
Ystyried hysbysiad defnydd dros dro			Ystyriaeth/awdurdodwyd i ddisbarthu gyda gwrandawriad os yw pob plaid yn gytûn/awdurdodedig i asesu a yw gwrthwynebiad yn ddilys.
Penderfynu peidio â rhoi gwrth hysbysiad ar gyfer hysbysiad defnydd dros dro		x	
Loterïau Cymdeithasau Bychain		x	Cofrestru, Gwrthod a dirymu cofrestrriad loteri gyda'r ymgeisydd/deiliad yn cael yr hawl i wrandawriad yn yr Is-bwyllgor.